AMGUEDDFA CYMRU

# Adroddiad Ariannol 2021/22

amgueddfa.cymru
museum.wales

## Cefndir Amgueddfa Cymru

**Mae Amgueddfa Cymru yn elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, sydd wedi'u gwasgaru ar draws Cymru. Ond rydyn ni'n fwy nag adeiladau yn unig. Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol pwysig sy'n ymestyn tu hwnt i'w milltir sgwâr. Ein nod yw ysbrydoli pawb trwy stori Cymru, ac rydyn ni'n cydnabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu trwy ein hamgueddfeydd, casgliadau a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.**



Rhif Elusen / Charity No. 525774

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cynnwys

Rhif y dudalen

## Adroddiad Ariannol Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru

1 Perfformiad

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Trosolwg o Berfformiad | 2 |
| 1.2 | Dadansoddiad o Berfformiad | 11 |

2 Atebolrwydd

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | |
| 2.1.1 | Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 27 |
| 2.1.2 | Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol | 30 |
| 2.1.3 | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 31 |
| 2.2 | Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a Staff | 46 |
| 2.3 | Adroddiad Archwilio | 56 |

| | |
|---|---|
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 66 |
| Mantolen | 67 |
| Datganiad Llif Arian | 68 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 69 |

# Adroddiad Ariannol Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## ADRAN 1: PERFFORMIAD

### Adran 1.1 Trosolwg o Berfformiad

**Yn ystod 2021/22 ymatebodd Amgueddfa Cymru yn llwyddiannus unwaith eto i'r heriau a achoswyd gan y pandemig COVID-19 gan weithio'n galed i barhau'n adnodd pwysig i Gymru. Parhawyd i gyflwyno rhaglenni a phrofiadau ysbrydoledig yn rhithwir ac ar lwyfannau digidol. Er hynny, fel llawer o sefydliadau yng Nghymru, buom unwaith eto yn wynebu natur wamal y pandemig a'r cyfyngiadau a ddaeth yn ei sgil drwy gydol 2021/22. Roedd yn golygu gwneud ymdrech fawr i ailagor ein drysau i'r cyhoedd, a gwneud popeth posibl yr un pryd i gadw'n staff, ein gwirfoddolwyr a'n hymwelwyr yn ddiogel. Roedd yna hen edrych ymlaen at weld ymwelwyr yn dychwelyd i'n holl safleoedd, yn enwedig grwpiau ysgol, a chafodd hynny groeso cynnes gan y cyhoedd a'r staff fel ei gilydd. Er y cyfyngiadau parhaus, gan gynnwys cyfyngiadau ar niferoedd ymwelwyr a llai o oriau agor, croesawodd Amgueddfa Cymru dros 674,000 o ymwelwyr i'n hamgueddfeydd yn 2021/22.**

**Rydyn ni wedi datblygu Strategaeth newydd hyd at 2030, a brand newydd gyda hi, i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Amgueddfa Cymru. Rydym wedi sicrhau bod gwasanaethau digidol yn ganolog i'n gwaith a thrwy'r rhain rydyn ni wedi cysylltu â mwy o gymunedau mewn ffyrdd newydd a chyffrous.**

**Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod pobl yn gallu eu gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn ein casgliadau a'n straeon, bod eu lles yn cael ei gefnogi drwy gyfrwng ein mannau a'n profiadau, a'u bod yn cael cyfleoedd i ddysgu a chreu. Byddwn yn cynnal ac yn parhau i feithrin cysylltiadau â phobl yng Nghymru a ledled y byd.**

**Ein cenhadaeth ni, wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig, yw cefnogi'r wlad drwy'r broses o wella, adnewyddu a thyfu. Bydd y gwaith a wnawn ni wrth ddiogelu natur a'r amgylchedd yn hanfodol i helpu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae gennyn ni gyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru, ac i wneud diwylliant yn hygyrch i bawb yng Nghymru.**

**Roedd rhai o'r problemau y cyfeirir atynt yn ein hadroddiad 2020/21 yn parhau yn 2021/22 a chânt eu hegluro ymhellach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

**Ehangu Ymgysylltiad**

**Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu ymagwedd at y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n mynd ati i ennyn diddordeb unigolion a chymunedau ledled Cymru wrth benderfynu beth sy'n cyfrif fel diwylliant, ble mae'n digwydd a phwy sy'n ei greu a'i brofi.**

**Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo'n gyhoeddus i sefyll yn erbyn hiliaeth o bob math drwy ymuno â Dim Hiliaeth Cymru. Eleni fe barhaodd ein gwaith gyda phartneriaid cymunedol a phobl ifanc i helpu i sicrhau cydraddoldeb hiliol yng Nghymru drwy amrywio'r casgliadau cenedlaethol, cynyddu cynrychiolaeth a chyfrannu at sgyrsiau ynghylch dad-drefedigaethu, anghydraddoldeb a hiliaeth.**

**Gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, comisiynwyd tri adroddiad ar Ehangu Ymgysylltiad gan Re:cognition, a hoeliodd sylw ar ardal led-wledig dlawd, Richie Turner Associates, a fu'n canolbwyntio ar bobl fyddar ac anabl, ac Undeb Gwrth-Hiliol Celfyddydau Cymru, a fu'n canolbwyntio ar amrywiaeth diwylliannol ac ethnig. Canlyniad gwaith a gomisiynwyd gan Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru oedd yr adroddiadau, er mwyn inni fynd ati, trwy gyfres o sgyrsiau, i ystyried sut mae ehangu'r ymgysylltiad â chymunedau rydym yn methu'n gyson â'u cynnwys yn ein gwaith. Hoeliodd pob un o'r tri adroddiad sylw ar gymunedau penodol.**

**Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, ac mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-2025 (https://amgueddfa.cymru/nodau/gweledigaeth-ymrwymiadau-a-gwerthoedd/cynllun-gweithredu-ehangu-ymgysylltiad/). Wrth inni barhau i ddatblygu'n cynlluniau, byddwn yn arddel ymagwedd sy'n cydnabod rhyngblethedd. Ein bwriad yw gwneud rhagor o waith gan ganolbwyntio ar gymunedau sy'n wynebu anfantais a byddwn yn ceisio dilyn dull drwy'r cynllun – ac yn ein gweithgareddau i ehangu ymgysylltiad yn y dyfodol – sy'n cydnabod natur gydgysylltiedig pawb sy'n wynebu gwahaniaethu neu anfantais.**

**Ehangu a dyfnhau'r ymgysylltiad â chymunedau ledled Cymru yw un o amcanion allweddol y ddau sefydliad ac mae'n llinyn canolog yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol (https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/). Mae'r cynllun pendant hwn yn gorwedd yng nghyd-destun ehangach ein gwaith ar gydraddoldeb.**

**Blaenoriaethu'r Blaned**

**Yn 2019, datganodd Amgueddfa Cymru argyfwng hinsawdd ac ecoleg byd-eang. Ers hynny rydym wedi gwreiddio'n hymrwymiad i helpu i ddiogelu a gwarchod natur drwy gyfrwng ein strategaeth a'n cynlluniau blynyddol.**

**Ym mis Mawrth 2022, cwblhawyd archwiliad carbon o weithgareddau ystâd a sefydliad Amgueddfa Cymru. Mae hwn yn bwydo'n cynllun rheoli cynaliadwyedd a'n gwaith i ddatgarboneiddio'n hadeiladau a chreu dulliau gweithredu mwy**

**cynaliadwy. Bu cynnydd yn yr arian cyfalaf yn 2021/22 gan Lywodraeth Cymru yn fodd inni fwrw ymlaen â gwaith i reoli'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio a sefydlu ymagwedd at gynnal-a-chadw a phrojectau adeiladu sydd wedi'i seilio ar y ffabrig yn gyntaf. Rydym yn dal i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, eu tîm datblygu adnewyddadwy a sefydliadau eraill fel WRAP Cymru. Llwyddwyd i gyflwyno adroddiad Sero Net cyntaf Amgueddfa Cymru i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021 yn unol â'i chanllawiau.**

**Rydyn ni wedi datblygu Cynllun Rheoli Adfer Tir a Natur ar draws safleoedd yr Amgueddfa. Bydd hwn yn monitro'r gweithgareddau ar draws ein hagenda carbon sero-net a'n parodrwydd at newid hinsawdd, gan fesur a gwella bioamrywiaeth, polisïau a mentrau corfforaethol, cyllid a rhaglenni. Mae'n cynnwys rhaglen o Archwiliadau Bioamrywiaeth ar draws ein holl amgueddfeydd a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol. Yn 2021/22 cwblhawyd y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.**

**Rydyn ni wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd drwy'n gwaith ni i gyd. Penodwyd Cydlynydd Cynaliadwyedd dynodedig ym mis Ionawr 2022. Mae'n cynllun hyfforddi Llythrennedd Carbon wedi bod ar waith gydol 2021/22, gan alluogi'r staff i ddeall achosion newid hinsawdd yn well a mynd ati i chwarae rhan wrth leihau'n hôl troed carbon. Enillwyd statws Sefydliad Llythrennog Carbon Efydd, a ddyfarnwyd gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon.**

**Datblygwyd ein rhaglenni i ennyn diddordeb pobl yn yr amgylchedd, gan gynnwys Gŵyl Fwyd Ddigidol oedd yn hybu cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Cafodd COP26 ei nodi gan ail ddigwyddiad digidol Olion tra cafodd Cynhadledd Bywyd Gwyllt Cymru Anhysbys ei chyflwyno ar-lein mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.**

**Ein Hymateb i'r Pandemig**

**Trwy gydol 2020/21 a 2021/22 rydym wedi adeiladu ar ein gwaith o ddatblygu gwasanaethau ar y cyd â'n partneriaid cymunedol a datblygu technolegau digidol i helpu i wella'n gwasanaeth yn ystod cyfnodau clo a chyfyngiadau.**

**Ym mis Mai 2021, cawsom ailagor safleoedd ein holl amgueddfeydd naill ai'n llawn neu ar lai o ddiwrnodau, gan gadw system archebu tan fis Mawrth 2022 i reoli'r niferoedd cyfyngedig a chaniatáu ymbellhau cymdeithasol. Ailddechreuodd rhai o'n harddangosfeydd a'n rhaglenni corfforol yn ofalus, ynghyd â'n rhaglen wirfoddoli. O'r diwedd agorodd *Artes Mundi 9* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd lle cafodd yr ymwelwyr brofi gwaith pwerus chwe artist o bwys rhyngwladol. Roedd themâu byd-eang yr arddangosfa yn cynnwys gwladychu, newid amgylcheddol, gwaddol gwrthdaro, a phryderon parhaus ynghylch cynrychiolaeth a braint.**

**Cafodd cyfyngiadau cenedlaethol COVID-19 eu llacio i lefel 1 ym mis Gorffennaf 2021, ac yna i lefel 0 ddechrau mis Awst, gan ganiatáu inni wneud estyniadau pellach yn oriau agor ein safleoedd ac ehangu'n digwyddiadau corfforol.**

**Dros yr haf, cymerodd Amgueddfa Cymru ran yng ngweithgareddau personol yr Haf o Hwyl i blant a phobl ifanc. Anfonwyd cynnwys digidol rheolaidd i deuluoedd o dan linyn Gweithgareddau #AmgueddfaGartref yn ystod gwyliau'r haf yn ogystal â thrwy grŵp Facebook caeedig i deuluoedd Tŷ Hafan. Cafodd mil o Becynnau Creadigol eu hanfon i deuluoedd ledled Cymru drwy ein partneriaid cymunedol a rhwydwaith Fusion. Cafodd Amgueddfa Cymru ei chydnabod am ei chyfres o ddigwyddiadau *Amgueddfa Dros Nos: Gartref* ac enillodd wobr am y Gweithgaredd Digidol Gorau i Blant mewn Amgueddfeydd sy'n Addas i Deuluoedd.**

**Pan oedd y pandemig yn ei anterth, edrychwyd ar ffyrdd newydd o archwilio'r casgliad cenedlaethol yn ddigidol. Mae gwersi gwerthfawr o'r profiad hwn yn cael eu cymhwyso at fentrau newydd, gan gynnwys digideiddio'n casgliad celf gyfoes. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, rydym yn creu adnodd digidol newydd a fydd yn fynedfa ddeinamig o safon i'n casgliad. Mae'r cynulleidfaoedd allweddol yn cynnwys orielau, artistiaid a churaduron ledled Cymru, ysgolion a cholegau a phobl sy'n dymuno archwilio celf gyfoes.**

**Dechreuodd y trafod cynnar gyda phartneriaid a gwaith ar astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu Amgueddfa'r Gogledd o ddifrif, ar ôl cael ysgogiad ychwanegol yn sgil dynodi tirwedd lechi gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth Byd UNESCO ym mis Gorffennaf 2021. Yn yr hydref cafwyd proses ymgynghori cymunedol i gynnwys ymwelwyr a phartneriaid cymunedol wrth ddatblygu'r cynlluniau.**

**Effeithiodd y symudiad yn ôl i gyfyngiadau lefel 2 COVID-19 tua diwedd y flwyddyn ar ein hymwelwyr a'n rhaglenni. Cafodd y cyfyngiadau ar letygarwch dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd effaith arnom, gan effeithio ar ein caffis, ein gwasanaethau arlwyo a'n rhaglenni cyhoeddus. Ar gyfartaledd, cawsom 40% yn unig o'r nifer o ymwelwyr a gafwyd cyn y pandemig yn 2021/22.**

**Er hynny, parhawyd i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu ac arhosodd ein safleoedd ar agor gyda chyfyngiadau. Dan arweiniad Cyngor Hil Cymru, agorodd yr Amgueddfa *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes* yn Hydref 2021 yn Sain Ffagan. Teithiodd yr arddangosfa ledled Cymru i nifer o safleoedd Amgueddfa Cymru a lleoliadau cymunedol.**

**Tua diwedd 2021/22 cafodd y cyfyngiadau eu llacio a llwyddwyd i ailddechrau rhai rhaglenni a gweithgareddau a dileu'r gofyniad i archebu lle ym mis Mawrth 2022. Cyflawnwyd sawl arddangosfa bellach gan gynnwys *Ein Lle Ni – Dathlu Blaenau Gwent* i fynegi treftadaeth Blaenau Gwent, mewn partneriaeth â Grŵp Cymunedol Aberbîg, y Brifysgol Agored yng Nghymru a Chymdeithas Tai Linc Cymru.**

**Trwy gydol 2021/22 croesawyd dros 674,000 o ymwelwyr i'n hamgueddfeydd. Dangosodd ein harolygon i ymwelwyr lefel uchel o foddhad ar y croeso a gafwyd, y mesurau COVID-19 a roddwyd ar waith a'n hymateb i newidiadau yn y cyfyngiadau a'r canllawiau. Teimlai'r ymwelwyr yn ddiogel wrth ymweld â'n hamgueddfeydd,**

Trwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i ymgysylltu â phobl ifanc ac wedi addasu'n rhaglen ddysgu er mwyn creu modelau arloesol, cyfunol o weithio. Cafodd ein rhaglen ddysgu rithwir, ddi-dâl i ysgolion ganmoliaeth gan athrawon a soniodd am y cyfle cyfartal sy'n cael ei gynnig gan y rhaglen gweithdai rhithwir.

Hyfrydwch oedd cael statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli am y trydydd tro yn Ionawr 2022, gyda chanmoliaeth i'n mentrau amrywiol i gefnogi'n gwirfoddolwyr yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys mentrau fel gardd gymunedol GRAFT yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a gerddi Wallich ac Ymddiriedolaeth Innovate yn Sain Ffagan.

Cafodd sawl menter a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn flaenorol eu cynnal a'u datblygu. Roedd y rhain yn cynnwys Cysur mewn Casglu sy'n dal i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia wrth iddyn nhw hunan-ynysu, ac a ddatblygwyd gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Cymdeithas Alzheimer, Ymddiriedolaeth Innovate a Phartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf. Mae *Cynfas*, ein cylchgrawn celfyddydau digidol, yn dal i hybu sgyrsiau am y casgliad celf cenedlaethol gan gryfhau'r ymdeimlad o rannu perchnogaeth ac estyn allan i gymunedau newydd.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, bu'n rhaid i'n staff addasu at yr heriau newydd ac fe wnaethon nhw hynny mewn modd hyblyg, proffesiynol ac arloesol. Rydym wedi bod yn gweithredu dull gweithio cyfunol. Parhaodd rhai staff i weithio ar y safle yn gofalu am yr amgueddfeydd, yr ymwelwyr a'r casgliadau, tra oedd eraill yn gweithio gartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, diolch i ddatblygiadau cyflym yn ein systemau TGCh.

## Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

| | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfanswm yr incwm | 38,300,000 | 34,364,000 |
| Cyfanswm y gwariant | (38,830,000) | (37,189,000) |
| Symudiadau eraill | 15,000 | 580,000 |
| (Gwariant)/incwm net cyfunol | (515,000) | (2,245,000) |
| | | |
| Symudiadau net mewn cronfeydd (ar ôl yr holl enillion a cholledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu) | 6,463,000 | (1,598,000) |
| | | |
| Cyfanswm balansau cronfeydd mewn cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig cyhoeddus a phreifat ar ddiwedd y flwyddyn | 103,001,000 | 96,538,000 |
| | | |
| Balansau cronfeydd a gedwir at ddibenion cyhoeddus anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn (heb gynnwys y gronfa bensiwn) | 9,089,000 | 10,091,000 |

**Er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio eto ar ein ffynonellau incwm heblaw ffynonellau'r llywodraeth drwy gydol y flwyddyn, cafodd y colledion hyn eu lliniaru gan gyllid o'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) dan aden llywodraeth y Deyrnas Unedig. Drwyddi draw, ein gwariant net ar gyfer y flwyddyn oedd £515,000.**

**Mae'r symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys £4.0m o enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn, ac enillion mynegeio o £3.0m ar ailbrisio tir ac adeiladau.**

**Yn sgil cau'n hamgueddfeydd a chyfyngu niferoedd ymwelwyr am ran helaeth o'r flwyddyn oherwydd y pandemig COVID-19, cafwyd gostyngiad mawr ym masnachu a throsiant ein cwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf. Pan oedd ein hamgueddfeydd yn agored, prif weithgareddau'r cwmni masnachu oedd gwerthu yn ein siopau manwerthu, arlwyo contract ac arlwyo mewnol, parcio ceir, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, gosodiadau a hawliau ffilmio. Nododd y cwmni golledion o £51,000 ar gyfer 2021/22 (colledion o £504,000 ar gyfer 2020/21). Roedd y colledion hyn yn net o gyllid CJRS o £33,000 (£429,000 yn 2020/21).**

**Cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2022 oedd £103,101,000. Ceir dadansoddiad yn nodyn 19 i'r cyfrifon. Mae nodyn 19 yn dangos, ac eithrio diffyg y cynllun pensiwn, mai asedau sefydlog yw dros 90% o'r cronfeydd. Roedd y cyllid cyhoeddus anghyfyngedig heb gynnwys diffyg y cynllun pensiwn, yn £9.1m, a £3.3m o hwnnw'n asedau sefydlog. Mae'r £5.8m o gronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig sy'n weddill wedi'i ddyrannu i dalu diffygion mewn cyllid ac ymrwymiadau yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Polisi ar Gronfeydd Wrth Gefn.**

## Nodau ac Amcanion

**Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad sy'n Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau. Rydyn ni wrthi'n symud i ffwrdd o fodel amgueddfa'r ugeinfed ganrif fel deiliad gwrthrychau sy'n gweithredu o fewn ei muriau ei hun yn unig, tuag at fodel newydd sy'n sicrhau bod diwylliant yn hygyrch, yn berthnasol ac yn ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru.**

**Y weledigaeth hon sydd wrth wraidd ein Strategaeth 2030 newydd, sy'n nodi sut rydym yn dal yn rhan hanfodol o seilwaith diwylliannol Cymru, sy'n hanfodol ar gyfer y broses o iachau ac adnewyddu cenedlaethol. Mae'n cynnwys 6 Addewid a 9 Hwylusydd sy'n cwmpasu'n gwaith.**

**Mae'n 6 Addewid tan 2030 yn dod â'n huchelgais yn fyw, a sut rydyn ni'n bwriadu ei gyflawni.**

**Trwy ein casgliadau, ein rhaglenni cyhoeddus a'n partneriaethau, byddwn ni'n gweithio gyda phobl Cymru a chymunedau ar draws ein gwlad er mwyn:**

1. **Cynrychioli pawb**
2. **Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes**
3. **Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd**
4. **Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli**
5. **Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol**
6. **Creu cysylltiadau ar draws y byd**

**Er mwyn gwireddu'r addewidion uchelgeisiol hyn bydd ein cynlluniau'n cael eu cefnogi gan 9 Hwylusydd neu ffordd o weithio, sef:**

- **Cynaliadwyedd**
- **Cynhyrchu incwm**
- **Ymchwil a gwerthuso**
- **Datblygu ein pobl**
- **Llywodraethu da, gwneud penderfyniadau ar y cyd**
- **Y Gymraeg**
- **Brand clir, cydnabyddedig**
- **Cyfleusterau sy'n addas i'r diben**
- **Gweithio diogel**

**Mae'n gweledigaeth, ein strategaeth a'n haddewidion wedi'u mapio i'r saith nod llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn adrodd yn rheolaidd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ein cynnydd yn erbyn nodau'r Ddeddf.**

**Mae'n gwaith ni dros y pum mlynedd nesaf hefyd yn cyd-fynd yn glir â Llythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth ar gyfer Amgueddfa Cymru.**

## Cefndir Statudol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru trwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel endid cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Siarter Frenhinol RC000369, Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Erbyn hyn mae'r sefydliad yn cael ei adnabod fel Amgueddfa Cymru.**

**Mae Amgueddfa Cymru'n elusen gofrestredig annibynnol, sy'n cael ei chyllid craidd trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.**

**Ein hamcan craidd, a nodir yn y Siarter Frenhinol, yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd'. Mae hyn yn golygu datblygu ein casgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio, a chynnal mynediad at gasgliadau er lles cymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, a ddiwygiwyd ym 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:**

**(i) yn bennaf, trwy sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr o wyddoniaeth, celfyddyd, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, a**

(ii) **yn gyffredinol, trwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, sydd â'r bwriad o hybu gwell dealltwriaeth a hyrwyddo ymchwil.**

**Fe wnaethom barhau i weithredu ein Cynllun a Pholisi Ymgynghori, sy'n egluro'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r technegau cyfranogi allweddol mewn perthynas â'n prif weithgareddau ymgynghorol.**

## Lleoliadau Amgueddfa Cymru

**Yn ystod 2021/22 buom yn gweithredu saith o amgueddfeydd yn uniongyrchol ledled Cymru:**

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd**
**Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol y DU o ran amrywiaeth ei chasgliadau Celf sy'n arwyddocaol yn rhyngwladol ac sy'n cynnwys celf gyfoes, hanesyddol a Chymreig, a'i harddangosfeydd Gwyddorau Naturiol. Yn 2021, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd oedd y chweched amgueddfa fwyaf poblogaidd yn y DU mewn pleidlais gan y Cylchgrawn Which?**

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd**
**Mae Sain Ffagan, un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, yn rhan o'n grŵp o bum amgueddfa hanes cymdeithasol a diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn deugain a mwy o adeiladau o Fôn i Fynwy sydd wedi'u hailgodi yma. Yn 2019, enillodd Sain Ffagan wobr bwysig Amgueddfa'r Flwyddyn gan y Gronfa Gelf. Fe'i henwyd yn amgueddfa fwyaf poblogaidd y DU gan y Cylchgrawn Which? yn 2021.**

**Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen**
**Mae hen bwll glo cyflawn Big Pit yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon a Llwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop. O dan arweiniad cyn-lowyr, a staff a hyfforddwyd yn ddiweddarach, mae'r teithiau tanddaear yn disgyn dros 90 metr i grombil y pwll glo. Dechreuwyd croesawu ymwelwyr unwaith eto ym mis Awst 2021, ar ôl bod ar gau yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau COVID-19.**

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd**
**Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru'n arddangos casgliad o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers dros 150 o flynyddoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cerfluniau, arysgrifau, cerrig beddau, mosaig labyrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith.**

**Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd**
**Yma, adroddir hanes y diwydiant llechi yng ngweithdai gwreiddiol chwarel Dinorwig. Yn ogystal â'r ffowndri, gefeiliau, siediau a'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sy'n dal i weithio, gall ymwelwyr weld crefftwyr yn arddangos eu sgiliau hollti a thrin llechi â llaw. Bu'r Amgueddfa yn bartner allweddol yn y cais**

**llwyddiannus gan ardal lechi'r gogledd-orllewin am statws Safle Treftadaeth Byd UNESCO.**

**Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin**
**Yng nghalon cefn gwlad y Gorllewin, mae'r amgueddfa hon yn adrodd hanes y clwstwr o ddeugain melin a oedd yng nghyffiniau Dre-fach Felindre ar un adeg. Hen felin y Cambrian Mills – yr unig felin sydd wedi parhau ar waith yn gyson ers y cychwyn – yw cartref yr amgueddfa bellach.**

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ardal Forwrol, Abertawe**
**Mae'r Amgueddfa yn sefyll yn yr Ardal Forwrol sydd wedi'i hadfywio. Hen warws rhestredig wedi'i gysylltu ag adeilad cyfoes o lechi a gwydr yw ei chartref. Gall yr ymwelwyr archwilio stori ryfeddol diwydiant ac arloesi yng Nghymru. Mae gan yr amgueddfa enw da cynyddol am ymgysylltu dinesig a chymunedol ac fe'i henwebwyd fel Amgueddfa Noddfa gyntaf y Deyrnas Unedig yn 2018.**

**Mae gennyn ni hefyd Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd trwy drefniant.**

**Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ffurfiol â chyrff lleol ar draws Cymru gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.**

## Adran 1.2 Dadansoddiad o Berfformiad

### Dangosyddion Perfformiad

**Oherwydd y pandemig COVID-19 a chau a chyfyngu'r amgueddfeydd dros dro, bu'n rhaid inni adolygu'n mesurau perfformiad. Mae symud i mewn ac allan o gyfyngiadau drwy'r flwyddyn yn golygu ein bod wedi gorfod gwerthuso'n perfformiad mewn ymateb i'r her hon. Er hynny, rydym wedi parhau i fonitro pob maes allweddol o'n gwaith ac rydym hefyd wedi canolbwyntio ar sut y gallwn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cymunedau a phobl ledled Cymru. Rydym wedi datblygu'n harlwy digidol drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar-lein.**

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Targed 2020/21 | Alldro 2020/21 | Targed 2021/22 | Alldro 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau | 90,000 | 64,492 | 672,000 | 674,814 |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 1,600,000 | 1,326,635 | 1,750,000 | 2,241,982 |
| Nifer yr ymweliadau addysgol ffurfiol | 15,000 | 54,845* | 70,000 | 122,707* |
| Oriau gwirfoddolwyr | 2,500 | 11,113 | 15,000 | 23,138 |
| Cyfanswm yr incwm yn net o ymchwil a ffioedd, elw'r cwmni masnachu ac ailgodi tâl, a chodi arian refeniw digyfyngiad | £1,800,000** | £1,850,000** | £1,640,000** | £1,377,000** |

***  Yn cynnwys cymryd rhan mewn ystafelloedd dosbarth rhithwir a lawrlwytho adnoddau**
***** Yn cynnwys incwm o gyllid CJRS ar gyfer staff ar ffyrlo, a gafodd ei gapio ar golledion ar Incwm nad yw'n Gymorth Grant am y flwyddyn***

**Gwnaethom yn well na'n targedau ar gyfer 2021/22 yn y dangosyddion perfformiad allweddol ac eithrio incwm net, lle cafodd y ffaith bod amgueddfeydd wedi'u cau a'r cyfyngiadau ar nifer yr ymwelwyr effaith arwyddocaol ar ein hincwm masnachu a'n helw.**

## Buddsoddiadau cyfalaf

**Yn sail i gyflawni'r weledigaeth, mae rhaglen o waith cyfalaf yn parhau, sef rhaglen a ariennir gan gymorth grant Llywodraeth Cymru. Yn 2021/22 canolbwyntiodd hyn unwaith eto ar ddatblygu'r cynllun gwaith cynnal a chadw hanfodol a chyflymu'n rhaglen ddigidol. Oherwydd y tân yn y to yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Ebrill 2021 a'r ffaith bod y prif gontractwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, dechreuodd ail gyfnod o waith mawr ar y to yn ystod y flwyddyn gyda chontractwr gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i orffen bellach. Dechreuwyd hefyd ar y llwybr hygyrch newydd yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae bellach wedi'i gwblhau, ac yn gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran hygyrchedd. Cafodd projectau eraill yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan gynnwys gwaith ailosod lifftiau, gwaith awyru ac uwchraddio ystafelloedd gweinyddion TGCh, i gyd eu cwblhau. Roedd y projectau eraill a gwblhawyd yn y flwyddyn yn cynnwys ailosod offer ar draws safleoedd gan gynnwys boeleri, oeryddion ac offer fferm; prynu caledwedd TGCh ac offer clyweledol; a diweddaru amrywiol siopau masnachol. Gwelwyd projectau digidol amrywiol yn gwneud cynnydd. Buddsoddwyd yn y gwaith o gynllunio a gweithredu ar gyfer datgarboneiddio Amgueddfa Cymru, gyda nifer o brojectau wedi'u cwblhau a hefyd wedi'u nodi i'w rhoi ar waith yn y dyfodol. Parhaodd cyfnod cychwynnol project ailddatblygu Amgueddfa'r Gogledd, gan gynnwys arolygon ac ymgynghoriaeth gynllunio. Er bod mwy o gymorth grant am y pum mlynedd hyd at 2021/22 yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £16m, nodwyd bod angen dros £50m o waith cynnal a chadw ataliol ac ôl-gronnus hanfodol yn y 10 mlynedd nesaf.**

## Gweithio mewn Partneriaeth

**Parhaodd yr Amgueddfa i weithio gyda phartneriaid ar hyd a lled Cymru a'r tu hwnt i ddangos y casgliadau cenedlaethol mewn amryw o leoliadau, gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, canolfannau ymwelwyr a safleoedd treftadaeth, ac i rannu sgiliau ac arbenigedd ar draws y sector.**

**Rydym yn cydweithio â mwy na 200 o bartneriaid lleol a chenedlaethol i gyflwyno arddangosfeydd, digwyddiadau a rhaglenni dysgu. Mae'n partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro wedi parhau, gydag arddangosfa *Tir/Môr* yn agor yn Oriel y Parc ym mis Gorffennaf 2021, a chwblhau gwaith i osod yr arddangosfa nesaf *Ar Eich Stepen Drws*.**

**Rydym hefyd wedi datblygu partneriaethau rhyngwladol strategol drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn falch o barhau â'n perthynas hirsefydlog â Japan, ac eleni llofnodwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Amgueddfa Gelf Llywyddiaeth Oita. Rydym wedi datblygu perthynas â Für Natur yn Berlin ac amgueddfeydd yn Affrica, Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, ac arweinwyr amgueddfeydd yng ngwledydd America.**

**Rydym wedi cyfarfod â phartneriaid rhyngwladol eraill i gynllunio'r Rhaglen Hawliau Diwylliannol, Democratiaeth Ddiwylliannol yng Nghaernarfon ym mis Mehefin 2022. Bydd arbenigwyr diwylliannol ar ddiwylliannau traddodiadol a hawliau brodorion yn cyfrannu at y rhaglen.**

**Mae diwylliant yn chwarae rhan hanfodol yn economi Cymru, gan ddenu miliynau o ymwelwyr. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol allweddol eraill rydym wedi ymrwymo i godi proffil Cymru yn rhyngwladol fel cyrchfan ddiwylliannol gyfoethog.**

## Caffael Sbesimenau

**Ym mis Chwefror 2022 derbyniwyd eitem allweddol sy'n gysylltiedig â thrychineb Aberfan i'n casgliad. Cafwyd cloc bach a stopiodd am 9.13am, sef yr eiliad y cafodd yr ysgol gynradd ei boddi, ei roi gan Mike Flynn ac mae bellach yn cael ei arddangos yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn Oriel Cymru. Cyn hyn roedd y cloc yn cael ei gadw'n ddiogel yng nghartref ei deulu. Roedd tad Mike Flynn yn bostmon oedd hefyd yn barafeddyg yn y Fyddin Diriogaethol ac fe fu'n bresennol yn Aberfan ar 21 Hydref 1966.**

**Wrth i'r gwaith o ailgodi Gwesty'r Vulcan barhau yn Sain Ffagan, buom yn ffodus i sicrhau nifer o eitemau pwysig yn ymwneud â'r adeilad. Mae'r rhain yn cynnwys darluniau pensaernïol hanesyddol o 1914; yr arwydd gwreiddiol oedd yn hongian y tu allan ac a gasglwyd cyn datgymalu'r adeilad yn 2012; a ffotograff o Llewelyn a Maggie Jones, landlordiaid cynnar yn y Vulcan, a dynnwyd ym 1941. Rydym hefyd wedi casglu eitemau eraill yn ymwneud â landlordiaid ac ymwelwyr â'r dafarn, a fydd yn ein helpu i adrodd yr hanesion cyfoethog sy'n gysylltiedig â'r Vulcan.**

**Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi bod wrthi'n datblygu'n casgliadau LHDTC+ ac wedi caffael ystod eang o ddeunyddiau gan gynnwys bathodynnau mudiad Lesbiaid a Hoywon yn Cefnogi'r Glowyr 1984/85 ac eitemau o ddathliadau Pride ledled Cymru.**

**Buom yn ffodus i gael yr araith wreiddiol o wyth tudalen o lawysgrifen, a draddodwyd gan y Gwir Barchedig June Osborne, Esgob Llandaf, yng nghyfarfod Corff Llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol yng Nghasnewydd, ddydd Llun 6 Medi 2021. Yn y cyfarfod hwn y pasiodd yr Eglwys yng Nghymru Fesur a fydd yn caniatáu i barau o'r un rhyw gael bendith i'w partneriaeth sifil neu eu priodas gan yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru, mewn eglwys yng Nghymru. Cafodd y Mesur ei gyflwyno gan Esgob Llanelwy, Gregory Cameron, a'i eilio gan Esgob Llandaf, June Osborne.**

**Prynwyd Llwy Garu 'Welsh Not' gan Paul Davies drwy gyfrwng ein Grant Caffael Sbesimenau. Cafodd y darn eiconig hwn o gelf fodern/gyfoes Gymreig, a wnaed o sliper rheilffordd, ei ddangos am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam ym 1977. Roedd Paul yn aelod o gydweithfa ddylanwadol artistiaid Beca, a ddaeth ag ymwybyddiaeth genedlaethol newydd i gelf yr ugeinfed ganrif yng Nghymru.**

## Gwaith Ymchwil

**Bu ceisiadau am 25,000 Ewro i Gronfa Adfer Amgueddfeydd TEFAF ac i Sefydliad Finnis Scott yn llwyddiannus. Bydd hyn yn fodd inni wneud gwaith archwilio a chadw technegol manwl ar y paentiad gan Manet a brynwyd yn ddiweddar (Portrait de Monsieur Jules Dejouy). Roedd yr arian hefyd yn fodd inni benodi i swydd dan hyfforddiant mewn cadw paentiadau. Hefyd ymrwymodd Cyfeillion Amgueddfa Cymru £5,000 i ariannu'r project, ynghyd â £500 gan roddwr unigol.**

**Rydym wedi bod yn datblygu'n rhaglen hyfforddi doethurol ymhellach. Yn dilyn y Panel Adolygu ym mis Ionawr 2022, rydym wedi dewis tri chynnig PhD i gael eu cyflwyno yn 2022 ac un yn 2023, gyda chyllid gan Bartneriaethau Doethurol Cyfunol Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Rydym wedi penodi ymgeisydd ar gyfer PhD mewn cydweithrediad â'r Brifysgol Agored drwy gyfrwng Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol y Brifysgol Agored, Prifysgol Rhydychen a Phrifysgol Caergrawnt o dan aden Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae cynnig am leoliad tri mis arall a ariennir gan Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC Cymru, i wneud gwaith dadansoddi ar gasglu data Covid, hefyd yn cael ei ddatblygu.**

## Addysg

**Yn 2021/22 ymgysylltwyd â 122,707 o ddisgyblion ysgol, yn bersonol ac ar-lein, drwy ein rhaglenni a'n hadnoddau dysgu ffurfiol. Erbyn hyn mae'n rhaglenni i ysgolion yn cael eu darparu'n rhithwir ac yn bersonol ym mhob un o'n hamgueddfeydd. Rydym yn dal i weithio gyda'r Consortia Ysgolion i ddatblygu gweithdai ac adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd a lansiwyd y llyfr newydd ar hanes Cymru *'Seren a Sbarc a'r Pei(riant) Amser'*, gyda chymeriadau'r Siarter Iaith yn Sain Ffagan. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i lunio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, mae'r cynnwys yn canolbwyntio ar sut mae Seren a Sbarc yn dysgu am hanes Cymru trwy ymweld ag amgueddfeydd Amgueddfa Cymru.**

**Cafodd gweithdai rhithwir yn adlewyrchu'r casgliadau ar draws ein holl amgueddfeydd eu hybu drwy gyfrwng Gŵyl Hanes Cymru i Blant. Mae'r sesiynau rhithwir newydd yn cynnwys rhaglen o weithgareddau ac adnoddau digidol yn gysylltiedig â phroject *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes* sy'n cael ei gyflwyno i ysgolion mewn partneriaeth â Chyngor Hil Cymru. Roedd e-lyfrau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer ysgolion mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn cynnwys 'Ymgyrchu a Phrotestio'.**

**Mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru, mae adnoddau newydd mewn Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) wedi'u cwblhau. Rydym hefyd yn gweithio gyda Chronfa Lloches, Mudo ac Integreiddio (AMIF) i ddatblygu a darparu rhaglenni ar gyfer dysgwyr ESOL.**

## Mentrau dan arweiniad pobl ifanc

Cafodd rhaglen Gaeaf Llawn Lles ei darparu gan Amgueddfa Cymru a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, gyda sawl partner wrthi'n darparu'r rhaglen ledled Cymru. Ariannwyd y rhaglen gan Lywodraeth Cymru fel rhan o becyn cyllid cenedlaethol i helpu teuluoedd a phobl ifanc i wella ar ôl y pandemig COVID-19. Cyflwynwyd y rhaglen dros fisoedd y gaeaf ac roedd yn cynnwys gŵyl o berfformiadau a gweithgareddau yn ystod hanner tymor mis Chwefror a phrojectau yn y gymuned a ddarparwyd gan bobl ifanc. Darparwyd rhaglenni wyneb yn wyneb mewn 65 o leoliadau, gydag 20 rhaglen ddigidol arall a bu rhwydwaith o dros 80 o bartneriaid yn dosbarthu pecynnau lles creadigol i 7,500 o deuluoedd a phobl ifanc sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf. Darparodd pobl ifanc dros 600 awr o waith gwirfoddol a chafodd 142 o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed gymorth drwy leoliadau â thâl.

Mae Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru yn grŵp o bobl ifanc annibynnol rhwng 18 a 25 oed, o gefndiroedd amrywiol, sy'n cael eu talu i weithredu fel asiantau newid. Maent yn gweithio gyda'r adrannau i ddatblygu polisïau a darparu rhaglenni, gan sicrhau bod ymgysylltu â phobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn. Nhw hefyd sy'n arwain cyfrif Instagram @BloeddAC.

Mae Amgueddfa Cymru yn un o ddeuddeg sefydliad yn y DU sy'n rhan o'r fenter Cicio'r Llwch, gyda chefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Y nod yw gwneud treftadaeth yn berthnasol i fywydau pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Buom yn cydweithio â Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a Phlant yng Nghymru, Promo Cymru, Barnardo's, Llamau, Jukebox Collective a'r Panel Cynghori Is-Sahara ar weithgareddau amrywiol, gan gynnwys arddangosfa *Yfory Drwy Lygaid Ddoe* yn Sain Ffagan, project ail-fframio Picton yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac arddangosfa *Trawsnewid* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe i nodi Pride Abertawe a dathlu hanes, diwylliant a gwaith celf LHDTC+ Cymru.

## Arddangosfeydd

Ail-agorodd yr arddangosfeydd *Bywyd Richard Burton* ac *Artes Mundi 9* ym mis Mai yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn sgil llacio'r cyfyngiadau, ac agorodd *Yfory Drwy Lygaid Ddoe* yn Sain Ffagan ym mis Mehefin. Tua diwedd 2021 agorodd rhagor o arddangosfeydd, megis *Rheolau Celf?* a *Llun am Lun: David Hurn* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac *Arddangosfa Gobaith* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Agorodd *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes*, dan arweiniad Cyngor Hil Cymru, yn Sain Ffagan. Daeth aelodau o Henuriaid Windrush, y Prif Weinidog, y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon ac aelodau eraill o'r Cabinet i'r lansiad. Ers hynny, mae'r arddangosfa wedi teithio i amgueddfeydd eraill Amgueddfa Cymru gan gynnwys Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru a Big Pit. Yn Oriel y Parc, caeodd *Tir/Môr* ym mis Chwefror 2022 ac agorodd *Ar Eich Stepen Drws: Natur, Daeareg ac Archaeoleg*

***yng Nghymru*** **ym mis Mawrth 2022 gan ganolbwyntio ar gydadwaith cymunedau/dinasyddion â'u hanes a'u hamgylchedd lleol.**

**Cynhaliwyd sawl arddangosfa gymunedol gan gynnwys *Ein Lle Ni – Dathlu Blaenau Gwent* yn mynegi treftadaeth Blaenau Gwent, mewn partneriaeth â Grŵp Cymunedol Aberbîg, y Brifysgol Agored yng Nghymru a Chymdeithas Tai Linc Cymru. Agorodd *Y Wisg Goch* hefyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, gan gynnig llwyfan artistig i fenywod ledled y byd gael adrodd eu straeon personol drwy frodwaith.**

**Cafodd arddangosfeydd cymunedol a thros dro eu datblygu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys: *Cymru... Urdd 100* i ddathlu canmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru a agorodd ym mis Ionawr 2022; *Cymru... Aberfan* i arddangos y cloc o Aberfan a roddwyd i'r Amgueddfa yn ddiweddar a agorodd ym mis Chwefror 2022; ac arddangosfa *Mae Bywydau Du o Bwys* i ddangos profiadau byw ymgyrchwyr amlwg mudiad Mae Bywydau Du o Bwys ym mis Mawrth 2022. Mae'r arddangosfa'n cynnwys placardiau a gasglwyd o brotestiadau Mae Bywydau Du o Bwys 2020.**

## Codi arian

**Roedd effaith y pandemig coronafeirws yn dal yn arwyddocaol o ran ein gwaith codi arian gan fod y mesurau diogelwch angenrheidiol yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr (lle cafwyd gostyngiad o ryw 60% o'r lefelau cyn COVID-19) a gostyngiad sylweddol o ran profiadau a gweithgareddau wyneb yn wyneb. Serch hynny, cafwyd lefel uchel o lwyddiant wrth godi arian drwy ymddiriedolaethau, sefydliadau, loterïau, darparwyr grantiau a chefnogwyr unigol, gan godi £1.3m yn 2021/22. Cawsom roddion hefyd o £15,000 o asedau treftadaeth a nifer o grantiau gan y llywodraeth.**

**Cafwyd rhoddion arwyddocaol gan Sefydliad Paul Hamlyn, chwaraewyr Loteri Codau Post y Bobl, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a Llywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol. Rhoddwyd grantiau hefyd gan Gronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd, Sefydliad teulu Ashley – a weinyddir gan Sefydliad Cymunedol Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: cynllun grantiau Cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi, ymysg eraill. Roeddem hefyd yn falch o sicrhau cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau newydd i gefnogi'n gwaith a buom yn llwyddiannus yn ein cais am gyllid i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Pobl a Lleoedd 3, i gynyddu'n rhaglen ymgysylltu â dementia ledled Cymru, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer.**

**Parhawyd i gyfathrebu'n rheolaidd i ategu'n lefelau cadw cefnogwyr ymysg y cefnogwyr unigol, gan arwain at lefelau ardderchog o ran cadw Noddwyr a Chefnogwyr y Cylch ac estynnwyd croeso hefyd i aelodau newydd o Amgueddfa Cymru drwy gydol y flwyddyn. Roedd digwyddiadau a phrofiadau a oedd yn cydymffurfio â gofynion Covid, fel teithiau tu ôl i'r llenni, sgyrsiau gan guraduron a digwyddiad Nadolig, o gymorth wrth sicrhau cefnogwyr unigol newydd drwy gyfrwng ein cylch cyfrannu a'n cynllun Noddwyr.**

**Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein gwaith codi arian ei wneud yn fewnol, gan ein Hadran Ddatblygu ac ni wnaethom gontractio unrhyw waith codi arian i asiantaethau trydydd parti nac ymgymryd ag unrhyw weithgarwch marchnata uniongyrchol. Rydym yn dal yn aelodau o'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac yn cadw at y cod ymarfer codi arian fel y'i nodwyd gan y Rheoleiddiwr. Ni chawsom unrhyw gwynion mewn perthynas â'n gwaith codi arian.**

## Gwirfoddoli

**Yn 2021/22 cefnogodd Amgueddfa Cymru 579 o wirfoddolwyr a roddodd 23,138 o oriau o'u hamser i'n hamgueddfeydd.**

**Yn Ionawr 2022 dyfarnwyd statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli inni am y trydydd tro. Cadarnhaodd yr asesiad nad oedd argymhellion ar gyfer gwelliannau. Cawsom ganmoliaeth arbennig am gadw cysylltiad yn gyson â'r gwirfoddolwyr drwy gydol y pandemig.**

**Mae rhaglenni gwirfoddoli wyneb yn wyneb wedi ailddechrau erbyn hyn ac mae cyfleoedd newydd wedi'u datblygu gan gynnwys gwirfoddoli yn yr ardd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a threialu e-wirfoddoli. Rydym hefyd wedi recriwtio gwirfoddolwyr a lleoliadau newydd gyda chynnydd o ran y gwirfoddolwyr sy'n nodi eu bod yn amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant.**

## Adroddiad Cynaliadwyedd

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi yn y ddogfen *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance.***

**Ein nod yw creu amgueddfeydd cynaliadwy trwy ddatblygu arferion cynaliadwy wrth weithredu'n saith amgueddfa a'n canolfan gasgliadau, drwy'n gwaith caffael a'n ffyrdd o weithio, a thrwy hyrwyddo arferion cynaliadwy trwy ein harddangosfeydd, ein digwyddiadau a'n rhaglenni dysgu, er enghraifft drwy helpu ysgolion i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy trwy'r project SCAN. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis Gwasanaeth Ynni Cymru, WRAP, yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon, Cynnal Cymru a Sustrans.**

**Hefyd, nod llawer o'n hymchwil graidd yw gwella dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol a diwylliannol, er enghraifft, ymchwil i'r newid yn yr hinsawdd.**

**Penodwyd Cydlynydd Cynaliadwyedd dynodedig ym mis Ionawr 2022 sy'n gweithio gyda Grŵp Cydymffurfio â Chynaliadwyedd trawsadrannol i sbarduno ymagwedd strategol ac integredig at gynaliadwyedd ar draws pob maes o'n gwaith. Hefyd, mae Fforwm Rheoli Cynaliadwy yn cyfarfod bob chwarter, sy'n agored i staff sy'n cynrychioli pob rhan o fusnes yr Amgueddfa ac sydd hefyd yn hybu ac yn lledaenu targedau cynaliadwyedd ar draws eu timau.**

**Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn creu amgueddfeydd cynaliadwy, gan gynnwys ein Polisi Amgylcheddol, yn https://amgueddfa.cymru/datblygu-cynaliadwy/**

**Perfformiad**

**Mae gwarchod trysorau'r genedl ac agor ein drysau i dros 1.8 miliwn o ymwelwyr mewn blwyddyn normal yn defnyddio llawer o ynni. Mae ein Polisi Ynni wedi'i fabwysiadu fel cam mawr ymlaen tuag at wella effeithlonrwydd ynni, ac fel prawf o'n cefnogaeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Buom yn cymryd rhan yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni y CRC nes iddo gau yn dilyn blwyddyn gydymffurfio 2018/19, ac rydym yn parhau i ddilyn ei ofynion ynglŷn ag adroddiadau a monitro fel mater o arfer gorau.**

**Roedd ein hamgueddfeydd ar agor i ymwelwyr, gyda niferoedd cyfyngedig, am y rhan fwyaf o 2021/22 ar ôl bod ar gau am y rhan fwyaf o 2020/21. Fel y disgwylid felly mae'r ynni, y gwastraff a'r dŵr a ddefnyddiwyd i gyd wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn cynt ond maent yn dal yn is nag yn y blynyddoedd cyn y pandemig COVID-19. Dylid nodi hefyd fod ein holl safleoedd yn dal yn agored trwy gydol 2020/21 i'r staff hanfodol fynd i mewn, ac y bu'n rhaid cynnal amgylcheddau priodol ar gyfer ein casgliadau yn ein horielau a'n storfeydd, a oedd yn cyfyngu ar y gostyngiadau o ran defnyddio ynni a dŵr y llynedd.**

**Yn 2021/22 mae'r trydan a ddefnyddiwyd wedi codi 24%, a gostyngodd y nwy a ddefnyddiwyd (gan gynnwys LPG) 8%. Mae cyfanswm yr ynni sydd wedi'i brynu ar draws yr holl safleoedd felly wedi cynyddu 3% o'i gymharu â 2020/21. Bu cynnydd o 89% mewn gwastraff a 5% mewn defnydd dŵr. O'i gymharu â 2019/20, pan oedd yr amgueddfeydd ar agor yn llawn heb gyfyngiadau, roedd cyfanswm y defnydd o ynni a brynwyd 9% yn is, gwastraff 33% yn is, a'r defnydd o ddŵr 4% yn is.**

**Mae'r tablau isod yn darparu gwybodaeth ariannol ac anariannol fanwl am allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff, a'r defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt (dŵr). Cafwyd data allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 ar nwyon tŷ gwydr o'n cronfa ddata CRC, cyfrifwyd allyriadau cwmpas 3 gan ddefnyddio ffigurau milltiroedd blynyddol a ddarparwyd gan ein cyflenwr ceir llogi, casglwyd y data gwastraff o adroddiadau gwastraff safleoedd unigol, a daw'r data ar ddefnydd o ddŵr o'r wybodaeth ar filiau.**

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($tCO_2$) | Cwmpas 1 Allyriadau (uniongyrchol) – nwy | 1,348 | 1,462 | 1,621 | 1,014 | 1,464 |
| | Cwmpas 2 Allyriadau (anuniongyrchol) – trydan a brynwyd | 1,104 | 975 | 1,259 | 1,582 | 2,116 |
| | Cwmpas 3 Allyriadau (teithiau busnes) | 8 | 1 | 24 | 25 | 26 |
| | Cyfanswm | 2,460 | 2,438 | 2,904 | 2,621 | 3,606 |
| | | | | | | |
| Ynni perthnasol a ddefnyddir (kWh'000) | Nwy | 7,335 | 7,952 | 8,771 | 5,164 | 7,951 |
| | Trydan | 4,827 | 3,887 | 4,574 | 5,190 | 5,548 |
| | Cyfanswm | 12,163 | 11,839 | 13,345 | 10,654 | 13,499 |
| | | | | | | |
| Dangosyddion ariannol (£) | Nwy | 177,684 | 201,843 | 213,582 | 216,754 | 204,745 |
| | Trydan | 686,640 | 491,828 | 666,208 | 647,989 | 596,914 |
| | Ffi gweinyddu CRC | 0 | 0 | 0 | 1,290 | 1,290 |
| | Teithiau busnes swyddogol | 53,811 | 30,386 | 181,993 | 161,771 | 156,312 |
| | Cyfanswm | 918,135 | 724,057 | 1,061,783 | 1,027,804 | 959,261 |

**Targedau a Pherfformiad**

Mae ein Datganiad Amgylcheddol yn gosod targed o leihau'r $CO_2$ a gynhyrchir gan ynni a thrafnidiaeth 2% bob blwyddyn. Er bod cynnydd bach yn yr allyriadau $CO_2$ ar gyfer ynni a brynwyd o'i gymharu â 2020/21, roedd hynny i'w ddisgwyl gan fod ein hamgueddfeydd ar gau i ymwelwyr am lawer o 2020/21. O'i gymharu â 2019/20, pan oedd yr amgueddfeydd ar agor yn llawn heb gyfyngiadau, mae'r gostyngiad yn $CO_2$ yn cyfateb i 15%.

O ran defnyddio trydan cafwyd cynnydd o 24% o'i gymharu â 2020/21, a hynny yn unol â'r disgwyl gan fod ein hamgueddfeydd wedi ailagor i ymwelwyr. Er hynny, parhaodd defnydd nwy i ostwng, 8%, yn rhannol oherwydd boeleri ynni effeithlon newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a osodwyd y llynedd i gyfrannu at leihau defnyddio ynni yn y tymor hirach.

Wrth inni barhau i hybu dulliau teithio cynaliadwy ymysg ymwelwyr a staff, rydym wedi gweld gostyngiad pellach mewn

| | | |
|---|---|---|
| | | $CO_2$ drwy logi ceir o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig, yn sgil gostyngiad o fwy na 30% yn y 5 mlynedd hyd at 2019/20. Mae cynyddu'r gallu i weithio o bell ar draws pob safle, a thrwy hynny leihau gofynion teithio, yn ffactor sylweddol yn hyn o beth. |

| Gwastraff | | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff peryglus | 0.0 | 0.0 | 0.5 | 0.3 | 0.2 |
| | | | | | | |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus: | | | | | |
| | - Tirlenwi | 846.1 | 311.6 | 1,218.1 | 1,262.6 | 1,123.2 |
| | - Wedi'i ailddefnyddio/ wedi'i ailgylchu | 1,263.7 | 807.4 | 1,911.6 | 1,948.6 | 1,773.2 |
| | - Wedi'i losgi | 27.2 | 8.7 | 37.5 | 43.9 | 41.6 |
| | Cyfanswm y gwastraff | 2,137.0 | 1,127.8 | 3,167.7 | 3,255.3 | 2,938.2 |
| | | | | | | |
| Dangosyddion ariannol (£) | Cyfanswm cost y gwaredu | 59,789 | 31,084 | 57,619 | 56,923 | 51,643 |
| | | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Targedau a Pherfformiad |
| | | Rydym yn annog lleihau gwastraff trwy fwy o ailgylchu a hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau yn frwd ar draws ein holl safleoedd. Er bod yna gynnydd o 89% yng nghyfanswm y gwastraff yn 2021/22, gan gynnwys cynnydd o 171% o ran tirlenwi, mae'r ddau gryn dipyn yn is nag yn 2019/20. |

| Defnydd o Adnoddau y Mae Pen Draw iddynt | | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ('000m³) | Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd | 22,572 | 19,601 | 23,444 | 23,463 | 28,786 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| Dangosyddion ariannol (£) | Cyfanswm costau cyflenwi dŵr | 60,939 | 45,427 | 67,067 | 79,828 | 89,705 |
| | | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Targedau a Pherfformiad |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn 2021/22 cynyddodd y dŵr a ddefnyddiwyd 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fel y disgwylid o gofio bod ein hamgueddfeydd wedi ailagor, ond mae'n dal ychydig yn is nag yn 2019/20. |

**Strategaeth y dyfodol**
**Mae'n Strategaeth hyd at 2030 yn rhoi amlygrwydd i ddatblygu a hybu arferion cynaliadwy, a mynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth. Ar sail yr ymrwymiad strategol hwn gellir adeiladu ar fomentwm 2021/22 yn unol â'n cynllun gweithredol ar gyfer 2022/23. Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwyedd newydd yn cyd-fynd â'n llythyr cylch gwaith, ymrwymiadau Amgueddfa Cymru 2030 a'r targedau yn Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.**

**Yn 2022/23 byddwn yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud eisoes o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a'r defnydd o ddŵr. Er y gall fod ychydig o gynnydd yn sgil blwyddyn lawn pan ail-agorwyd ein hamgueddfeydd i ymwelwyr, rhaid parhau â'r momentwm er mwyn gwireddu uchelgais yr Amgueddfa o fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030. Bydd y Fforwm Datblygu Cynaliadwy yn parhau i archwilio gwaith arbed ynni pellach ar draws ein safleoedd.**

**Mae'r hyfforddiant mewn Llythrennedd Carbon a ddatblygwyd yn 2020/21, ac sydd wedi'i achredu gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, bellach wedi'i basio gan 242 o aelodau staff ac mae llawer mwy wrthi'n ei gwblhau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddatblygu ar lwyfan dysgu ar-lein yn ystod 2022/23 i alluogi mwy byth o'r staff i ymgymryd ag ef a gwneud eu haddewidion. Y gobaith yw sicrhau statws lefel aur wedyn.**

**Gan adeiladu ar ein hymateb i'r pandemig COVID-19, a'n capasiti cynyddol ar gyfer gweithio o bell, byddwn yn lleihau siwrneiau'r staff yn y tymor hir, nid yn y dyfodol agos yn unig.**

**Bioamrywiaeth**
**Mae gennyn ni Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer pob un o'n safleoedd sy'n anelu at ddiogelu, gwarchod, gwella ac adfer planhigion ac anifeiliaid amrywiol ein holl safleoedd. Mae archwiliadau bioamrywiaeth wedi'u cynnal ar bob safle, gan ddarparu gwybodaeth i'n cynorthwyo i wneud penderfyniadau ac i helpu'n hymdrech cadwraeth effeithiol. Byddant yn llywio'r cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth a gwaith rheoli tir hefyd.**

**Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, bydd ein hymchwil hanes naturiol yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at drafodaethau cyfoes ynglŷn â chynaliadwyedd, newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Rydym wedi ymgysylltu â Plantlife i ddarparu dôl drefol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ogystal â nodi cyfleoedd inni eu hystyried yn y dyfodol.**

**Caffael Cynaliadwy**
**Rydym wedi mabwysiadu Polisi Caffael a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Mae'n mynd i'r afael â chostau ac effeithiau oes gyfan cynhyrchion a**

gwasanaethau, ac yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol ein cyflenwyr a'n contractwyr.

Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda WRAP Cymru yn 2022/23 i adolygu'n haeddfedrwydd o ran caffael cynaliadwy yn ogystal â nodi meysydd ar gyfer gwella ac argymell camau ar draws chwe thema allweddol; polisi a strategaeth, arweinyddiaeth a diwylliant, prosesau, galluoedd, cadwyn gyflenwi, a mesur.

Llywodraethu
Rydym wedi mabwysiadu system reoli amgylcheddol trwy gyfrwng BS8555, ac wedi datblygu polisïau craidd er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gweithrediadau, gan gynnwys:

- Safon Amgylcheddol SEREN BS8555 – rydym wedi cael achrediad Cam 3 y safon hon ar draws y sefydliad
- Polisi a Chynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy
- Polisi Ynni

Mae ein harferion, ein prosesau a'n llwyddiannau cynaliadwy yn cael eu hasesu'n allanol yn unol â BS8555 ac o dan Ymrwymiad Lleihau Carbon y Llywodraeth. Maent hefyd yn rhan o fframwaith cyffredinol rheolaeth fewnol, a cheir disgrifiad manylach o hyn yn y Datganiad Llywodraethu, sy'n rhan o'r Adroddiad hwn.

## Prisio Asedau Sefydlog

Yn ôl ein polisi cyfrifyddu ar brisio Asedau Sefydlog, rhaid i asedau eiddo gael eu hailbrisio'n broffesiynol bob pum mlynedd. Nid yw'r broses ailbrisio bob pum mlynedd hon yn berthnasol i asedau eraill, gan gynnwys asedau treftadaeth a'r rhai dan benawdau ehangach fel peiriannau, cerbydau, neu osodiadau a ffitiadau eraill. Mae'r polisi cyfrifyddu'n cynnwys darpariaeth hefyd i ddefnyddio mynegeion i addasu'r asedau hynny sydd wedi'u hailbrisio'n broffesiynol, yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau proffesiynol bob pum mlynedd.

Y tro diwethaf i asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo gael eu hailbrisio'n broffesiynol oedd 31 Mawrth 2021.

Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi'u cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gafwyd fel rhoddion ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar sail eu cost neu eu prisiad. Nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod modd cyfiawnhau costau sylweddol prisio casgliad mor fawr o asedau treftadaeth, ar sail cost/budd, i gael yr hyn a fyddai'n ddim mwy na phris ar un eiliad benodol mewn amser. Yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 30 ar asedau treftadaeth, trafodir datgeliadau yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

Adlewyrchir ein buddiant yn yr eiddo yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gan ein cyfran o 50% yn y cwmni cyd-fentro â Dinas a Sir Abertawe. Dangosir manylion y buddiant yn y cwmni cyd-fentro yn nodyn 9 i'r cyfrifon.

## Perfformiad Talu'n Brydlon

**Rydym yn dilyn amcanion y cod ymarfer Better Payment a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'n nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod ar ôl iddynt ddod i law. Saith niwrnod calendr oedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd i dalu anfonebau yn ystod 2021/22 (chwe diwrnod yn 2020/21), sy'n cynnwys 97.4% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (97.6% yn 2020/21). Ni wnaed taliadau llog dan Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£dim yn 2020/21).**

## Y Polisi ar Gronfeydd wrth Gefn

**Fel corff sy'n gyfrifol am gasglu a gwarchod asedau treftadaeth, gan gynnwys tir ac adeiladau, er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion, mae'r polisi ar gronfeydd wrth gefn yn berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig, ac nid i gyfanswm y cronfeydd a ddelir. Mae'n cronfeydd arian parod i'w wario yn cynnwys cronfeydd preifat a chronfeydd cyhoeddus.**

**Mae cronfeydd preifat yn cael eu cadw a'u nodi ar wahân yn y cyfrifon. Mae'r rhain yn cynnwys cronfeydd sy'n amodol ar gyfyngiadau a osodwyd gan roddwyr, a rhoddion a chyfraniadau anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio i hyrwyddo'n hamcanion. Ein polisi yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u cadw ar gyfer projectau a chynlluniau cyfalaf nad oes modd derbyn cyllid craidd na chymorth grant ar eu cyfer, gan gadw o fewn unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd sydd yn y Cronfeydd Preifat.**

**Mae ein polisi ar gronfeydd wrth gefn yn parhau i fod yn ddibynnol ar yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein Cytundeb Fframwaith, ac wedi'i gyfyngu ganddo, sef awdurdod a oedd yn cyfyngu'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 i 2% o'n cymorth grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran y Grant Prynu Sbesimenau ac incwm a gynhyrchwyd gennym ni.**

**Defnyddir elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, sef Mentrau AOCC Cyf, i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at ein nodau a'n hamcanion. Ar adegau, gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn cynyddu'r elw masnachu ymhellach.**

**Er gwaethaf yr anawsterau yn y blynyddoedd diwethaf ynghylch arian cyhoeddus, ein diffyg strwythurol cynyddol, ein cronfeydd refeniw sy'n crebachu a'r gofynion ynglŷn â gwaith cynnal a chadw hanfodol ataliol a'r dagfa gwaith cynnal a chadw, rydym yn dal yn benderfynol o barhau i gyflawni blaenoriaethau'r weledigaeth, gan gynnwys datblygiadau a gwaith adnewyddu cyfalaf. Cododd y pandemig COVID-19 heriau newydd, ond rydym wedi lliniaru'n colledion incwm yn 2020/21 a 2021/22 drwy gyllid CJRS ar gyfer staff ar ffyrlo, grantiau refeniw a rhoddion eraill sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac arbedion yn ystod y flwyddyn. Bu bron inni dreblu'r incwm o ffynonellau heblaw'r llywodraeth dros y pum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020, gyda chynlluniau ar waith ac yn cael eu datblygu i sicrhau rhagor o**

dwf yn y dyfodol. Er hynny, rydym yn dal i ddibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru i gynnal y rhan fwyaf o'n gweithgareddau.

Roeddem yn ddiolchgar am gymorth grant refeniw ychwanegol a ddyfarnwyd ar gyfer 2020/21 ac ar gyfer 2021/22, gan ein galluogi i gydbwyso'n cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd hynny. Ar sail ein modelau gweithredu presennol a'r strwythurau sydd ar gael mae ein cronfeydd refeniw (cyhoeddus anghyfyngedig) yn gynaliadwy am y deng mlynedd nesaf, ond mae pwysau chwyddiant ar gostau staff a chostau eraill yn debygol o leihau'r cyfnod hwn. Rydym yn adolygu'n sefyllfa ariannol yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru. Ar sail y trafodaethau hyn mae ein cyfrifon wedi'u paratoi ar y sail ein bod yn fusnes hyfyw ac nid oes ansicrwydd o bwys ynglŷn â'n gallu i barhau.

Cyfanswm y cyllid ar 31 Mawrth 2022 oedd £103,101,000. Ceir dadansoddiad yn nodyn 19 i'r cyfrifon. £6,304,000 oedd y cronfeydd preifat anghyfyngedig, £0.9m ohono'n asedau sefydlog, sy'n gadael £5.4m o gronfeydd arian i'w wario. £9,089,000 oedd y cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig, heb gynnwys y gronfa bensiwn, ac o hyn mae £3.3m yn asedau sefydlog, sy'n gadael £5.8m sydd wedi'i ddyrannu i dalu am ddiffygion ac ymrwymiadau yn y dyfodol.

## Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau

Ein hamcanion buddsoddi yw creu incwm i gefnogi ein gweithgareddau a chynyddu'r gwerth cyfalaf mewn termau real, cyn chwyddiant. Rydym yn buddsoddi Cronfeydd Preifat, a bwriedir cadw'r rhain mewn portffolio Cronfa Elusennau dewisol yn yr hirdymor a reolir yn weithredol gan ein cynghorwyr, sef Barclays. Mae ein polisi ar fuddsoddi yn derbyn cyfnewidioldeb tymor byr wrth geisio sicrhau enillion buddsoddi cadarnhaol yn dilyn effeithiau chwyddiant, ac yn cydnabod y gall gwerth cyfalaf amrywio'n sylweddol o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn cyfrifon arian parod, i fod ar gael yn rhwydd i'w buddsoddi yn y rhaglen gyfalaf. Rydym yn ceisio osgoi buddsoddi mewn stociau anfoesegol sy'n groes i'n hamcanion, drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n defnyddio mesurau sgrinio i sicrhau bod cyfyngiadau moesegol yn cael eu rhoi ar fuddsoddiadau. Mae perfformiad y cronfeydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson, a gwneir newidiadau i'r portffolio fel sy'n briodol i'r lefel dderbyniol o risg.

Cynyddodd gwerth y portffolio buddsoddi yn ystod y flwyddyn o £3,105,000 i £3,361,000.

Mae gennym hefyd, trwy gymynroddion, fuddsoddiad ecwiti mewn 11 o gwmnïau o'r radd flaenaf. Cynyddodd gwerth y portffolio hwn yn ystod y flwyddyn o £100,000 to £103,000.

Felly, cyfanswm gwerth y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2022 oedd £3,464,000.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gennym Gynllun Pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Mae'r cynllun wedi'i ategu gan Warant y Goron. Fel y mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae prisiadau blynyddol diweddar a welir ar y fantolen yn dangos diffyg ariannol yn asedau'r cynllun o'i gymharu â rhwymedigaethau'r cynllun. Mae trafferthion yn y marchnadoedd ecwiti, ynghyd â'r rhwymedigaethau cynyddol o dan y cynllun yn sgil llawer o ffactorau, gan gynnwys y ffaith fod yr aelodau'n byw'n hirach, yn golygu bod llawer o gynlluniau o'r fath dan bwysau, ac mae llawer ohonynt wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r prisiad a welir ar fantolen eleni, fel y'i cyfrifwyd o dan FRS102, yn dangos gostyngiad o £1.6m, o £58.9m i £57.3m. Ceir rhagor o fanylion am sut y cyfrifir costau pensiwn yn y nodyn i'r cyfrifon ynghylch polisïau cyfrifyddu, ac mae'r gofynion ynglŷn â datgelu a geir yn FRS102 i'w gweld yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

Llwyddwyd i wneud taliad ychwanegol untro o £750,000 i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y prisiad.

At ei gilydd, mae prisiadau o dan FRS102 yn cael eu seilio ar gyflwr presennol y marchnadoedd ac felly maent yn bur anwadal o dro i dro ac nid ydynt yn briodol fel y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ariannu cynlluniau. Mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu seilio yn hytrach ar brisiad actiwaraidd llawn bob tair blynedd, gan ddilyn canllawiau'r Rheoleiddiwr Cynlluniau Pensiwn.

Cafodd prisiad actiwaraidd tair blynedd diweddaraf y cynllun, hyd at 31 Mawrth 2021, ei gytuno gan Amgueddfa Cymru ac Ymddiriedolwyr y Cynllun ar 29 Mehefin 2022, yn ogystal â'r cynllun adfer cysylltiedig i ddileu diffyg ariannol y Cynllun. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y diffyg ariannol dros gyfnod o wyth mlynedd o ddyddiad y prisiad. Dylid cynnal y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2024.

## Polisi Iaith Gymraeg


Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r safonau a bennwyd ar gyfer Amgueddfa Cymru wedi'u pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac yn ymdrin â phedwar maes, sef Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion. Mae'n Hysbysiad Cydymffurfio a'n Polisi Iaith Gymraeg ar gael yn
https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi-iaith-gymraeg/
Rydym yn llunio adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal ac yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, ac felly mae gan Amgueddfa Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran hybu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o

**hanes yr iaith a diwylliant Cymru, yn ogystal â defnyddio a dathlu'r iaith yn ein gwaith. Mae ein holl arddangosfeydd a rhaglenni addysg yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog ac mae'n gwefan yn gwbl ddwyieithog.**



***Jane Richardson***
**Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**



***Hywel John***
**Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**

# ADRAN 2: ATEBOLRWYDD

## Adran 2.1: ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### 2.1.1 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

**Y BWRDD YMDDIRIEDOLWYR (O 1 Ebrill 2021 ymlaen)**
**LLYWYDD**
**Roger Lewis * (wedi ymddeol 31 Rhagfyr 2022)**
**Dr Carol Bell * (penodwyd yn Llywydd dros dro o 1 Ionawr 2023 i 31 Awst 2023)**
**Kate Eden * (penodwyd 1 Medi 2023)**

**IS-LYWYDD**
**Dr Carol Bell ***

**TRYSORYDD**
**Hywel John, FCA ***

**PENODWYD GAN LYWODRAETH CYMRU**
**Carys Howell (wedi ymddeol 31 Rhagfyr 2022)**
**Rachel Hughes, MBA FInstLM (wedi ymddeol 31 Rhagfyr 2022)**
**Michael Prior, BA Cyfreithiwr**
**Dr Catherine Duigan**
**Gwyneth Hayward (wedi ymddeol 14 Ebrill 2023)**
**Freya Stannard (penodwyd 1 Ebrill 2021)**
**Cai Wilshaw (penodwyd 1 Ebrill 2021)**
**Yr Athro John Hunt (penodwyd 1 Ionawr 2023)**
**Ameerah Mai (penodwyd 1 Ionawr 2023)**
**Owen Hathway (penodwyd 15 Ebrill 2023)**

**PENODWYD GAN AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**
**Dr Hywel Ceri Jones, CMG (wedi ymddeol 31 Awst 2022)**
**Y Farwnes Kay Andrews, OBE (wedi ymddeol 30 Tachwedd 2022)**
**Robert Humphreys (wedi ymddeol 18 Medi 2023)**
**Dr Madeleine Havard * (wedi ymddeol 14 Ebrill 2023)**
**Abigail Lawrence**
**Richard Thomas ***
**Rachel Hughes MBA FInstLM (penodwyd 1 Ionawr 2023)**

*** Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.**
**Mae pob Ymddiriedolwr yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau.**

**AELODAU ALLANOL ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD**
**Rheon Tomos, BA, IPFA (wedi ymddeol 23 Hydref 2022)**
**Dr Vivek Goel, BBS, MD, FRCP (wedi ymddeol 6 Tachwedd 2022)**

**CYFARWYDDIAETH (UWCH DÎM GWEITHREDOL) (O 1 Ebrill 2021 ymlaen)**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol** | **David Anderson (ymddiswyddodd o'i rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol 31 Mawrth 2023)** |
| **Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol** | **Philip Bushby** |
| **Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil** | **Kath Davies** |
| **Cyfarwyddwr Datblygu Busnes** | **Nia Elias (o 12 Ebrill 2021)** |
| **Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro** | **Peter Holt (o 9 Medi 2022)** |
| **Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr** | **Janice Lane** |
| **Prif Weithredwr** | **Jane Richardson (o 11 Medi 2023)** |

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | Neil Wicks (wedi ymddeol 31 Gorffennaf 2022) |
| Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | Nia Williams |

Datgelir manylion trafodiadau â phartïon cysylltiedig sy'n cynnwys cyfarwyddwyr neu Ymddiriedolwyr, gan gynnwys rhoddion gan Ymddiriedolwyr, yn nodyn 24 i'r Cyfrifon.

BWRDD MENTRAU AOCC CYF. (o 1 Ebrill 2021 ymlaen)

David Anderson (wedi ymddeol 10 Rhagfyr 2022)
Marc Simcox (penodwyd 8 Medi 2022)
Neil Wicks (wedi ymddeol 31 Gorffennaf 2022)
Nia Elias (penodwyd 12 Mai 2021)
Philip Bushby (penodwyd 6 Ebrill 2023)
Sylvia Smith (penodwyd 12 Mai 2021, ymddiswyddodd 10 Rhagfyr 2021)
Yvonne Ruelle (Ysgrifennydd y Cwmni)

## Fformat y Cyfrifon

Paratoir y cyfrifon o dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (FRS102).

Mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i Amgueddfa Cymru, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, wedi'u hymgorffori yn ffigurau cyfunol Amgueddfa Cymru. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu a gweithgareddau perthnasol Amgueddfa Cymru. Mae ein cyfran o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf), sef 50%, yn rhan o'r ffigurau cyfunol hefyd. Dyma gwmni cyd-fentro, sy'n gyfyngedig trwy warant, gyda Dinas a Sir Abertawe a'i phrif bwrpas oedd datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn nodyn 7 i'r cyfrifon.

## Pencadlys

Pencadlys Amgueddfa Cymru yw Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

## Prif Gynghorwyr

| | |
|---|---|
| Bancwyr: | Lloyds Bank PLC, Caerdydd |
| Cyfreithwyr: | Geldards LLP, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol: | RSM Assurance Services LLP, Caerdydd (hyd at 31 Gorffennaf 2021) |

| | |
|---|---|
| | **TIAA Ltd, Caerdydd (o 1 Awst 2021)** |
| **Rheolwyr Buddsoddi:** | **Barclays, Caerdydd** |
| **Trethiant:** | **Deloitte LLP, Caerdydd** |
| **Gweinyddwyr y Gronfa Bensiwn:** | **Broadstone Consultants and Actuaries Ltd, Bryste** |

## 2.1.2 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD YMDDIRIEDOLWYR A'R CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

**O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n ofynnol i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddangos darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru a'i hadnoddau net a dderbyniwyd, ei henillion a cholledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu, a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.**

**Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (FRS102) a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y llywodraeth, yn enwedig o ran:**

- **cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson**
- **gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol**
- **datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad sylweddol yn y cyfrifon**
- **paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw**

**Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'r Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a chyfrifoldeb dros gadw cofnodion priodol, diogelu asedau Amgueddfa Cymru, a pharatoi adroddiad a chyfrifon blynyddol sy'n deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.**

**Y Cyfarwyddwr Cyffredinol oedd y Swyddog Cyfrifyddu am y cyfan o 2021/22, ond cafodd y cyfrifoldeb hwn ei roi i'r Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro ym mis Rhagfyr 2022, gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ymddiswyddo o'i rôl o 31 Mawrth 2023. Parhaodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro i weithredu fel Swyddog Cyfrifyddu tan i Jane Richardson gael ei phenodi'n Brif Weithredwr ar 11 Medi 2023.**

## Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

**Cyn belled ag y bo'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr Amgueddfa Cymru, ac maent wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr Amgueddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.**

## 2.1.3 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

### 1. Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal fframwaith llywodraethu a system rheolaeth fewnol gadarn sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau a gweledigaeth Amgueddfa Cymru, fel y'u pennwyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr, a hynny wrth ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o dan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

### 2. Diben y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu, sy'n cynnwys y system rheolaeth fewnol, wedi'i ddylunio i reoli lefel resymol o risg, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, ni all ond darparu sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd llwyr. Mae'r fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar broses barhaus a ddyluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisïau, ein nodau a'n hamcanion, i bwyso a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith petaent yn digwydd, ac i'w rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Er mwyn ategu'r fframwaith llywodraethu, rydym yn cyflwyno Fframwaith Safonau a Llywodraethu Corfforaethol i'r Ymddiriedolwyr sy'n egluro awdurdod a phwerau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r pwerau hynny sydd wedi'u dirprwyo i bwyllgorau, cyfarwyddwyr a staff. Hefyd, mae gennym bolisïau twyll a chwythu'r chwiban sy'n destun adolygiad archwilio.

Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Drwy gydol ein gwaith o gau safleoedd a symud tuag at weithio o bell oherwydd y pandemig COVID-19, mae'r polisïau a'r trefniadau a amlinellir yn adran 3 isod wedi parhau, gan gynnwys dulliau adrodd, cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgorau a'r rheolwyr, prosesau penderfynu, gwaith recriwtio a hyfforddi, archwiliadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafodd y trefniadau ar gyfer rhai cyfarfodydd eu newid yn ystod 2021/22 ac esbonnir hyn ymhellach yn adran 3.2.

### 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae ein trefniadau llywodraethu'n cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Lywodraethu Genedlaethol ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae Amgueddfa Cymru yn Endid Budd Cyhoeddus, ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Yn yr Adroddiad Ariannol hwn ceir adroddiad cynhwysfawr ar gyflawni budd o'r fath, fel yr amlinellir yn ein nodau a'n hamcanion.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Disgrifir y fframwaith er mwyn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni egwyddorion craidd llywodraethu effeithiol.

**3.1 Canolbwyntio ar Ddiben Amgueddfa Cymru ac ar Ddeilliannau (Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf; Sicrhau Gwerth am Arian)**

2021/22 oedd seithfed flwyddyn ein gweledigaeth o Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau. Trwy'r weledigaeth hon ein pwrpas yw: ysbrydoli pobl, drwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, i feithrin eu hunaniaeth a'u lles, i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog, ac i ddeall lle Cymru yn y byd ehangach.

Mae ein perfformiad yn cael ei fonitro yn erbyn yr amcanion drwy gyfres o ddangosyddion ansoddol a meintiol, gan ddefnyddio fframwaith metrigau'r weledigaeth. Mae'r Cynllun Gweithredol a metrigau cysylltiedig y weledigaeth yn cael eu monitro gan y Cyfarwyddwyr. Caiff y cynnydd ei gynnwys yn Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol bob chwarter a chyflwynir adroddiad o'r cynnydd hwn yn Fforwm Penaethiaid yr Adrannau, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ac yng nghyfarfodydd chwarterol Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn derbyn yr wybodaeth gan y rhain yn Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol bob chwarter, sy'n crynhoi perfformiad y chwarter.

**3.2 Ymddiriedolwyr a Swyddogion yn Cydweithio i Sicrhau Diben Cyffredin gyda Rolau a Swyddogaethau Clir**

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethiant, rheolaeth ariannol ac asedau'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fel arfer yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gyhoeddus i drafod ei fusnes. Er hynny, rhwng Medi 2021 a Chwefror 2022 cafodd materion y Bwrdd eu rheoli drwy'r e-bost oherwydd y mater llywodraethu yr adroddir arno o dan adran 5 ynghylch Materion Llywodraethu isod. Roedd hyn yn cynnwys is-bwyllgorau'r Bwrdd, rhannu papurau'r Bwrdd a chadw at yr amserlen cyfarfodydd y cytunwyd arni. Ers mis Mawrth 2022 mae cyfarfodydd Bwrdd a chyfarfodydd is-bwyllgorau wyneb yn wyneb wedi ailddechrau.

Mae aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn unol â'r niferoedd a nodir yn y Siarter Frenhinol atodol ac yn unol ag egwyddorion dethol agored fel yr argymhellir gan Adolygiad Nolan. Mae'r Pwyllgor Penodiadau a Thaliadau (sy'n is-bwyllgor sefydlog o'r Bwrdd) yn cynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob aelod newydd a benodir yn dilyn rhaglen ymsefydlu ac yn derbyn dogfen Fframwaith Safonau a Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys llawlyfr ymddiriedolwyr yn fuan ar ôl cael ei benodi.

Mae gan Amgueddfa Cymru yr awdurdod cyfreithiol i dalu rôl y Llywydd o dan Adran 6(vi) o'i Siarter Frenhinol. Rhoddwyd yr awdurdod hwn gan y Comisiwn

Elusennau ar 15 Mai 2018. Mae'r Llywydd yn cael tâl ar y sail ei fod yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos yn y rôl hon. Yn ystod 2021/22 cafodd y Llywydd £35,183 (£35,183 yn 2020/21). Nid yw'r Llywydd yn cael unrhyw fuddion pensiwn na buddion eraill.

Ni chafodd aelodau eraill o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr dâl yn ystod y flwyddyn. Cedwir manylion eu swyddi cyfarwyddwyr cwmni a'u buddiannau arwyddocaol eraill mewn Cofrestr Buddiannau, sy'n agored i'r cyhoedd ac a gedwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.


Mae rhestr o aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys ymddeoliadau a phenodiadau newydd, wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn adran 2.1.1 o'r Adroddiad hwn. Mae'r rhestr yn nodi hefyd pa ymddiriedolwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a bod pob Ymddiriedolwr yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau. Dangosir cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr isod. Cafwyd esboniadau boddhaol am bob absenoldeb.

| Ymddiriedolwr | 24/06/21 | 23/09/21 | 16/12/21 | 24/03/22 | Nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb | Canran presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Roger Lewis | | Wedi'u gohirio | Wedi'u cynnal drwy e-bost | | 2 | 100% |
| Hywel John | | | | | 2 | 100% |
| Carol Bell | | | | | 2 | 100% |
| Carys Howell | | | | | 2 | 100% |
| Catherine Duigan | | | | | 2 | 100% |
| Madeleine Havard | | | | | 2 | 100% |
| Gwyneth Hayward | Ymdd. | | | | 1 | 50% |
| Rachel Hughes | | | | | 2 | 100% |
| Freya Stannard | | | | | 2 | 100% |
| Abigail Lawrence | | | | | 2 | 100% |
| Michael Prior | | | | Ymdd. | 1 | 50% |
| Kay Andrews | | | | | 2 | 100% |
| Richard Thomas | Ymdd. | | | | 1 | 50% |
| Rob Humphreys | | | | | 2 | 100% |
| Cai Wilshaw | | | | | 2 | 100% |
| Hywel Ceri Jones | Ymdd. | | | | 1 | 50% |

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o awdurdod i is-bwyllgorau amrywiol, yn bennaf y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, sydd â

**chylch gwaith eang o fonitro materion ariannol, gweithredol a pherfformiad, a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sy'n cynnwys aelodau allanol annibynnol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae'r cylch gorchwyl yn diffinio cylch gwaith a chyfrifoldebau pob pwyllgor yn glir.**

**Dangosir y berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau isod:**




**Mae rhestr o Aelodau Bwrdd Mentrau AOCC Cyf wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn adran 2.1.1 o'r Adroddiad hwn.**

**Yr Uwch Dîm Gweithredol, sy'n cynnwys y cyfarwyddwyr, sy'n rheoli ac arwain ar faterion gweithredol beunyddiol, ac mae eu manylion hwy i'w gweld yn yr adroddiad hwn hefyd. Cyflogir yr holl gyfarwyddwyr o dan y Telerau ac Amodau Cyflogaeth safonol, sy'n berthnasol i'r holl staff ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff telerau penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru.**

**3.3 Hyrwyddo Gwerthoedd Amgueddfa Cymru ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o Ymddygiad ac Ymarweddiad**

**Rydym yn cefnogi saith egwyddor bywyd cyhoeddus yr Arglwydd Nolan ac yn cymeradwyo Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd ac yn ymroi i sicrhau bod ein holl weithwyr ac Ymddiriedolwyr yn dilyn yr egwyddorion hyn. Disgwylir i'r holl Ymddiriedolwyr gydymffurfio'n llawn â'n Cod Ymddygiad, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr.**

**Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cynefino corfforaethol, sy'n darparu gwybodaeth am bob math o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, y**

**Gymraeg, cydraddoldeb, a rheoli gwybodaeth. Mae'r Rheoliadau Ariannol, polisïau a gweithdrefnau ar gael ar ein mewnrwyd i bob aelod o staff. Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi (ffurfiol ac anffurfiol) i weithwyr. Mae gennym broses Adolygu a Datblygu Perfformiad, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu, sy'n darparu adolygiad strwythuredig i staff o'u hamcanion personol, eu perfformiad yn erbyn yr amcanion hynny, a'r cyfle i nodi anghenion a dyheadau datblygu.**

**Rydym yn annog gwirfoddolwyr, profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau. Mae'r holl wirfoddolwyr yn dilyn rhaglen gynefino sy'n cynnwys iechyd a diogelwch perthnasol i'r rôl a'r adran y maent yn gwirfoddoli ynddi.**

**Disgwyliwn i bob aelod o staff ymddwyn yn onest a chywir bob amser, a diogelu'r adnoddau cyhoeddus sydd dan ei ofal. Rydym yn ystyried twyll neu ladrad o unrhyw fath – faint bynnag ei werth – yn gwbl annerbyniol, ac mae'r polisïau canlynol ar waith i atal achosion o'r fath ac i ymdrin â hwy:**

- **Polisi Chwythu'r Chwiban**
- **Polisi Twyll a Llygredd**
- **Polisïau Adnoddau Dynol ar ddisgyblu staff sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath.**

**O dan y Polisi Twyll a Llygredd, cyfrifoldeb rheolwyr llinell a chyfarwyddwyr yw sicrhau bod ganddynt system rheolaeth fewnol ddigonol yn eu meysydd cyfrifoldeb a bod dulliau rheoli'n gweithredu'n effeithiol.**

**Codwyd un mater yn ystod y flwyddyn o dan ein Polisi Chwythu'r Chwiban, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mai 2022 ac mae'n cael ei drin yn unol â'n prosesau mewnol. Cafodd ein polisïau ar Chwythu'r Chwiban a Thwyll a Llygredd eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mai 2019, yn unol â'r cylch adolygu arferol o dair blynedd.**

**Mae gennym Bolisi Cwynion, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion. Ymchwilir yn llawn i bob agwedd ar gwynion sy'n dod i law, a chaiff camau unioni addas eu nodi a'u gweithredu, gan gynnwys newidiadau i weithdrefnau lle y bo'n briodol.**

**Rydym yn ystyried diogelwch staff ac ymwelwyr o ddifrif ac mae gennym gyfres o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi hyn. Yn 2020/21, rhoddwyd polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith i sicrhau bod ein hamgueddfeydd yn agor yn ddiogel, pan gâi hynny ei ganiatáu, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r llywodraeth ar gyfyngiadau COVID-19. Parhawyd i ddilyn y polisïau hyn yn 2021/22.**

## 3.4 Gwneud Penderfyniadau Clir a Gwybodus sy'n Destun Proses Graffu a Rheoli Risg Effeithiol

Mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau wedi'i nodi'n glir yn y Siarter Frenhinol. Mae'n disgrifio'r swyddogaethau a'r berthynas rhwng y Bwrdd Ymddiriedolwyr a Phwyllgorau'r Ymddiriedolwyr a'r gwaith o ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion gweithredol eraill.

Bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gwneud pob penderfyniad ar sail adroddiadau ac ystyriaeth o'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn gyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddir cofnodion ar ein gwefan i sicrhau tryloywder. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal sesiynau caeedig, lle caiff materion mwy cyfrinachol neu bersonol eu trafod a'u penderfynu.

### 3.4.1 Rheoli Risg

Cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr a'r penaethiaid adran yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ac asesiadau risg ffurfiol eu cynnal yn rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Risg. Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn craffu ar yr adolygiadau hyn. Trwy fanteisio ar brofiad yr Archwilwyr Mewnol, sy'n mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg, a thrwy brofiad aelodau allanol annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, caiff y broses ei diwygio'n rheolaidd.

Mae'r Polisi Rheoli Risg yn egluro'r fframwaith a'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg. Sefydlwyd y polisi, gyda chymorth yr Archwilwyr Mewnol, gan gyfeirio'n benodol at Lyfr Oren Trysorlys Ei Fawrhydi ar reoli risg a llawlyfr Llywodraeth Cymru ar reoli risg – Hanfodion Risg. Cafodd y polisi ei adolygu a'i ddiweddaru ddiwethaf ym mis Mai 2019. Yn ystod 2021/22 bu is-grŵp yn adolygu nifer o feysydd penodol, ynglŷn â'r canlynol:

- Adolygu'r polisi a'r canllawiau perthynol
- Caffael system i gofnodi'r risgiau a'u cyflwyno'n well
- Datblygu hyfforddiant/gweithdai risg i Reolwyr ac Ymddiriedolwyr
- Datblygu cysyniadau risg megis 'cyflymder', 'parodrwydd i dderbyn risg' a risgiau cadarnhaol
- Ailsefydlu Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Bydd y newidiadau a'r gwelliannau hyn yn cael eu cytuno gan y Grŵp Rheoli Risg a gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystod 2022/23.

Mae Grŵp Rheoli Risg trawsadrannol penodedig yn cynnal adolygiad rheoli risg trylwyr, gan edrych ar gynnydd ac effeithiolrwydd dulliau rheoli risgiau mawr. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risg Strategol, gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd y gallai'r risg ddigwydd a'i heffeithiau posibl.

Mae'r grŵp yn adolygu Cofrestri Risg Cyfadrannol yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â phob cyfarwyddwr a phennaeth adran ynghylch newidiadau i fygythiadau posibl, gan sicrhau bod trefniadau rheoli risg wedi bwrw gwreiddiau ar draws y sefydliad cyfan. Mae nodi a rheoli risgiau yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd cyfadrannol a chyfarfodydd yr Uwch Dîm Gweithredol. Cedwir Cofrestri Risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu, y cwmni cyd-fentro, y Cynllun Pensiwn, a phob project mawr trwy gydol ei oes. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei throsglwyddo i'n prif gofrestri.

Mae'n bosibl y gofynnir i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol hefyd a nodir gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Cynllunio Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Hefyd, mae'r pwyllgorau hyn yn adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â chamau lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys y Pennaeth Archwilio Mewnol, sy'n gymorth i allu ystyried materion sy'n peri pryder mewn cyrff eraill. Mae rhaglen waith yr Archwilydd Mewnol yn croesgyfeirio'n benodol at y risgiau a nodwyd, a hefyd yn cael ei llywio gan yr Uwch Dîm Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn adolygu'n Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd fel rhan o'u rhaglen archwilio tair blynedd. Cafodd yr adolygiad diweddaraf ei gwblhau yn ystod 2017/18. Daeth hwn i'r casgliad fod gennym 'broses rheoli risg sydd wedi'i chynllunio a'i hymgorffori'n dda' a 'gallai'r bwrdd fod yn sicr iawn fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r maes hwn wedi'u cynllunio'n briodol, wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac yn gweithredu'n effeithiol'. Mae'r Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd yn parhau i fod ar waith.

Cafodd cofrestr risg pandemig COVID-19 ar wahân ei chadw drwy gydol y flwyddyn a'i hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Dîm Gweithredol a'r Grŵp Rheoli Risg. Mae'r risgiau ar y Gofrestr Risg Strategol hefyd yn adlewyrchu effaith y pandemig lle bo hynny'n berthnasol. Y prif risgiau ar y Gofrestr Risg Strategol yw crebachu yn y cyllid, diogelwch ein hasedau oherwydd tân neu dor diogelwch ffisegol a thor data. Mae camau lliniaru ar waith, ac mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Archwilwyr Mewnol, y Grŵp Rheoli Risg a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

### 3.4.2 Diogelwch Gwybodaeth

Mae gennym weithdrefnau diogelu gwybodaeth ar waith i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd gwybodaeth sy'n cael ei chadw a'i phrosesu gennym, ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn eu plith mae'r canlynol:

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- e-ddysgu ar Ddiogelu Data i'r staff

- parhau i gydymffurfio'n statudol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac adrodd am hynny
- y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn derbyn adroddiadau ar drefniadau trin data.

Rydyn ni hefyd yn aelod o Hyb Amddiffyn Seibr Gweithredol y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC). Mae'r Hyb Amddiffyn Seibr Gweithredol yn helpu i amddiffyn ein gwasanaethau critigol rhag ymosodiadau seibr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwiriad Gwe – sy'n helpu i adnabod a thrwsio materion diogelwch cyffredin sy'n effeithio ar ein gwefannau a'n parthau rhyngrwyd.
- Rhybudd Cynnar – hysbysiadau ynglŷn â gweithgaredd maleisus i helpu i ymchwilio i ymosodiadau ar ein rhwydwaith yn gyflym.

Rydyn ni wedi gwella'n hatebion Monitro a Seiberddiogelwch yn ystod y flwyddyn:

- Rhoi SIEM (Gwybodaeth Diogelwch a Rheolaeth Digwyddiadau) ar waith, sef ManageEngine Log360, sy'n casglu logiau oddi ar ein rhwydweithiau, ein gweinyddion a'n gwasanaethau.
- Gosod Rheolaeth Mynediad Rhwydwaith, ForeScout, i fonitro ac adnabod dyfeisiau twyllodrus ar unrhyw un o'n rhwydweithiau.
- Uwchraddio'r wal dân, Fortinet, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, sy'n gwarchod perimedr ein rhwydwaith rhwng y rhwydwaith mewnol a'r rhyngrwyd.
- Gwella'r VPN (Rhwydwaith Preifat Rhithwir) i hwyluso gwaith diogel o bell.
- Mae gyriannau caled gliniaduron yn cael eu hamgryptio drwy ddefnyddio Microsoft Bitlocker.
- Mae Microsoft Windows Security wedi'i osod ar bob dyfais defnyddiwr i'w hamddiffyn rhag feirysau a maleiswedd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad blynyddol mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

Ymatebodd Amgueddfa Cymru yn dda i'r heriau a gafwyd yn sgil y pandemig COVID-19 a'r symudiad i weithio o bell i'r holl staff angenrheidiol. Mae Diogelwch Gwybodaeth a Seibrddiogelwch yn dal yn un o'r prif flaenoriaethau.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau data personol yn 2021/22 na 2020/21 a oedd yn golygu bod gofyn hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Rhoddodd yr Amgueddfa ei hun hysbysiad i'r ICO am un digwyddiad, a

**hynny rhag ofn. Gostyngodd nifer y mân ddigwyddiadau o 17 yn 2020/21 i 9 yn 2021/22.**

**Mae'r flwyddyn wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gawsom, o 10 yn 2020/21 i 26 yn 2021/22. Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ymwneud â chyllid, caffael a chasgliadau.**

## 3.5 Datblygu Capasiti a Gallu'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddogion i Fod yn Effeithiol

**Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru sy'n penodi'r ymddiriedolwyr. Darperir cynllun cynefino ffurfiol i'r ymddiriedolwyr ar ôl eu penodi. Rhoddir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.**

**Mae pob aelod o'r Bwrdd yn cwrdd â'r Llywydd yn ffurfiol bob yn ail flwyddyn fel rhan o broses adolygu, ac mae'r Llywydd wedyn yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cynnal adolygiad hunanfyfyrio bob yn ail flwyddyn hefyd i sicrhau bod eu llywodraethu corfforaethol yn effeithiol.**

**Mae'r system rheoli ariannol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau, a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Caiff hwn ei lywio gan ein Dogfen Fframwaith, arferion gorau, a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'n cynnwys:**

- **rhagfynegi a monitro cyllidebau, gydag adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n nodi'r gwariant gwirioneddol a'r rhagolygon gwariant yn erbyn cyllidebau**
- **cynlluniau gwariant cyfalaf wedi'u diffinio'n glir**
- **disgyblaethau rheoli projectau ffurfiol**
- **ymgynghoriadau rheolaidd a chynnwys yr Archwilwyr Mewnol trwy gydol y broses o ddatblygu neu gyflwyno newidiadau i systemau**
- **cysylltiad agos ag archwilwyr allanol**
- **gofyn am gyngor arbenigol lle y bo'n briodol**
- **adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, is-bwyllgorau a Llywodraeth Cymru**
- **adolygiadau rheoli cyson.**

## 3.6 Ymgysylltu â Phobl Leol a Rhanddeiliaid Eraill i Sicrhau Atebolrwydd Cyhoeddus Cadarn

**Rydym yn gweithredu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn unol â'r Siarter Frenhinol a'n Cynllun a Pholisi Ymgynghori. Mae'n gweledigaeth ni, Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau, yn alwad i weithredu ar daith tuag at ddemocratiaeth ddiwylliannol. Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau diwylliannol, a ysbrydolwyd gan Ddatganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1948).**

**Yn 2020/21 cynhaliodd yr Amgueddfa raglen ymgynghori gyhoeddus helaeth, i helpu i lywio nodau strategaeth *Amgueddfa Cymru 2030* - un o'r**

**ymgynghoriadau cyhoeddus mwyaf inni ei gynnal erioed. Drwy drafod gyda Thîm Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gofalwyd bod y Nodau Llesiant ac Egwyddor Cynaliadwyedd wedi'u gwreiddio yn Strategaeth *Amgueddfa Cymru 2030*. I ategu'r strategaeth newydd, rydym wedi datblygu brand newydd i Amgueddfa Cymru, i wirioneddol adlewyrchu'r hyn y mae'r sefydliad yn sefyll drosto heddiw. Rydym wedi profi'r brand ymysg rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys staff, pobl nad ydynt yn gyfarwydd ag Amgueddfa Cymru, pobl ifanc, cynulleidfaoedd rhyngwladol a chyllidwyr.**

**Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, rydym wedi datblygu a chyflwyno rhaglenni cyhoeddus mewn cydweithrediad â nifer o sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector yn ystod 2021/22, yn unol â'n cynllun corfforaethol, yr egwyddor cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac fel rhan o'r camau ymgysylltu a nodwyd gan Archwilio Cymru yn yr archwiliad o waith ymgysylltu Amgueddfa Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

**Mae effaith y pandemig wedi bod yn ddirfawr, gan ddatgelu a dyfnhau maint yr amddifadedd a ddioddefir gan lawer o blant, oedolion a chymunedau ledled Cymru. A ninnau'n sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, rydym wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, gan alluogi mwy o bobl – ac ystod ehangach o bobl – i fod yn rhan o'n gwaith. Yn 2021/22 parhawyd i gyflwyno digwyddiadau digidol a rhaglenni dysgu rhithwir a ddatblygwyd yn ystod y pandemig a hefyd ail-lansiwyd ein rhaglenni wyneb yn wyneb gydag ysgolion a dychwelodd ysgolion a gwirfoddolwyr i'r saith amgueddfa genedlaethol. Ehangwyd ein gwaith o fewn cymunedau mewn ysbytai maes a lleoliadau gofal. Mewn cydweithrediad â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, cyflwynwyd rhaglenni Gŵyl Gaeaf Llawn Lles gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymunedol, amgueddfeydd lleol a chenedlaethol ledled Cymru.**

**Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Ehangu Ymgysylltiad, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, gweler https://amgueddfa.cymru/nodau/gweledigaeth-ymrwymiadau-a-gwerthoedd/cynllun-gweithredu-ehangu-ymgysylltiad/**
**Canlyniad gwaith a gomisiynwyd gan Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru oedd yr adroddiadau, er mwyn inni fynd at i, trwy gyfres o sgyrsiau, i ystyried sut mae ehangu'r ymgysylltiad â chymunedau rydym yn methu'n gyson â'u cynnwys yn ein gwaith.**

**Trafodir enghreifftiau o'n gwaith ymgysylltu yn fanylach yn yr Adran Perfformiad yn gynharach yn yr Adroddiad Ariannol, er enghraifft:**

- **rhaglen ddysgu rithwir, am ddim i ysgolion.**

- **menter Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru i ehangu'r ymgysylltiad â phobl ifanc**
- **menter *Cysur mewn Casglu* mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer**
- **arddangosfeydd ar y cyd gan gynnwys *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes* gyda Chyngor Hil Cymru mewn chwech o amgueddfeydd Amgueddfa Cymru, a *Trawsnewid* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe i ddathlu hanes, diwylliant a gwaith celf LHDTC+ Cymru**
- **ennill statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli am y trydydd tro ym mis Ionawr 2022 gyda chanmoliaeth am y ffordd y cefnogwyd gwirfoddolwyr yn ystod y pandemig a thrwy fentrau megis gardd gymunedol GRAFT yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a gerddi Wallich a'r Ymddiriedolaeth Innovate yn Sain Ffagan.**

**Parhawyd hefyd i gefnogi Rhaglen Llywodraeth Cymru, Cyfuno, gan gynnwys comisiynu adroddiad i werthuso Uchelgais Diwylliannol, rhaglen dair blynedd i ddarparu interniaethau i bobl ifanc ledled Cymru o dan arweiniad Sgiliau Creadigol a Diwylliannol.**

**Mae'n tîm Marchnata a Chyfathrebu yn gweithio i ddileu rhwystrau a galluogi cyfranogiad fel y gall pobl o bob cymuned a chefndir gael mynediad at Amgueddfa Cymru ac ymgysylltu â hi, yn bersonol ac ar-lein. Bydd ein strategaeth 10-mlynedd newydd a'n brand newydd yn helpu i fframio'n dulliau cyfathrebu a marchnata at y dyfodol.**

**Y rhaglen gyhoeddus yn bennaf sy'n llywio'n hymagwedd at gyfathrebu, o arddangosfeydd amlwg sy'n sbarduno'r nifer uchaf o ymwelwyr i ddigwyddiadau cymunedol sy'n denu ymwelwyr newydd a ffyddlon. Mae'n presenoldeb digidol wedi tyfu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, gyda mwy o ffocws ar greu cynnwys i'n llwyfannau yn y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd ein sianeli digidol eu defnyddio i ymgysylltu â phobl nad ydyn nhw o bosibl yn credu mai amgueddfeydd yw eu lle nhw. Rydym yn hybu ac yn annog deialog ynglŷn â'n casgliadau, ein rhaglenni cyhoeddus a'n harlwy addysg.**

**Rydym yn rhannu straeon y rhai sy'n cael eu hysbrydoli gan ein hamgueddfeydd, i annog eraill i wneud yr un peth. Drwy roi'n cyfrifon Twitter ac Instagram yn eu gofal nhw dros dro, llwyddwyd i roi llwyfan i bobl eraill gael rhannu eu straeon. Gan weithio gyda phartneriaid fel y Panel Cynghori Is-Sahara, Cyngor Hil Cymru, staff ar draws y sefydliad a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, mae amrywiaeth o leisiau wedi'u clywed ar ein sianeli.**

**Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu mewnol a pharhawyd i ddatblygu Cynllun Cyfathrebu Mewnol a'i roi ar waith. Drwy gyfrwng ein cyfathrebu mewnol, fe wnaed y canlynol:**

- parhau i rymuso cynulleidfaoedd mewnol i deimlo'n hyderus wrth gyfathrebu ac wrth gyflawni'n weledigaeth, ein strategaeth 10-mlynedd a'n brand
- cynorthwyo'r staff wrth iddynt addasu at ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i'r pandemig COVID-19
- darparu sesiynau briffio i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan ac yn cael y newyddion diweddaraf wrth i benderfyniadau gael eu gwneud
- cynnwys y staff ym mhroses IIP a helpu i gyflawni cynllun gweithredu IIP, yn dilyn achrediad IIP llwyddiannus Amgueddfa Cymru.

Parhawyd i weithio'n gadarnhaol gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig. Parhaodd cynrychiolwyr yr undebau i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Staff ar gyfer Adnoddau Dynol ac Ariannol yn ogystal â Fforwm y Staff. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal hefyd rhwng cynrychiolydd o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr o'r undebau.

Mae gennym Gynllun Cyhoeddiadau a gall rhanddeiliaid weld amrywiaeth o gyhoeddiadau, polisïau a gweithdrefnau, yn ogystal â chofnodion a datganiadau ariannol y Bwrdd, ar ein gwefan.

## 4. Adolygu Effeithiolrwydd

Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a threfniadau chwythu'r chwiban. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, cynghorwyr proffesiynol eraill a'r Uwch Dîm Gweithredol, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, yn llywio'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Mae sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill yn llywio'r adolygiad hefyd.

Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifyddu am effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan yr Ymddiriedolwyr, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r cyfarwyddwyr, ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â materion a sicrhau gwelliannau parhaus. Darperir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yn adran 5 isod, Materion Llywodraethu, sy'n nodi hefyd un mater arwyddocaol yn ymwneud â llywodraethu'r sefydliad.

Mae holiaduron gwerthuso'n cael eu llenwi gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bob dwy flynedd. Yn 2020 y cafodd y rhain eu cwblhau yn fwyaf diweddar ac ar y cyfan roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol iawn.

Rydym wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risg er mwyn cynnal fframwaith llywodraethu effeithiol a system rheolaeth fewnol effeithiol:

- Rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau gweinyddol ariannol manwl, gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod

**dirprwyedig; systemau cyllidebu cynhwysfawr; a chanllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir sy'n cael eu monitro.**

- **Prosesau rheoli mewnol megis monitro ac adrodd am berfformiad, cyfarfodydd adrannol a briffiau cyfarwyddwyr.**
- **Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystyried cwmpas y rhaglen archwilio mewnol ac yn derbyn adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ystyried cofnodion y cyfarfod a hefyd adroddiad gan y Cadeirydd.**
- **Adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilydd Mewnol, gan gynnwys ei farn annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r systemau rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.**
- **Adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol. Ar sail gwaith archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, daeth yr Archwilydd Mewnol i'r casgliad fod gennym fframwaith rheoli risg a phrosesau rheoli mewnol rhesymol ac effeithiol.**
- **Mae'r Archwilydd Mewnol yn cynnal adolygiad o gydymffurfiaeth ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Da ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru bob tair blynedd; cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Ebrill 2021, gan gadarnhau ein bod yn cydymffurfio â'r Cod.**
- **Mae Archwilio Cymru, ein harchwilydd allanol, yn darparu adroddiad Llythyr Rheoli sy'n crynhoi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r datganiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn adolygu hwn ac yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.**
- **Mae ffynonellau sicrwydd eraill yn cael eu hystyried, gan gynnwys adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau, Arolygwyr y Dreth Dirlenwi, yr Arolygiaeth Diogelwch Mwyngloddiau, a Buddsoddwyr mewn Pobl**

## 5. Materion Llywodraethu

**Yn 2020/21, codwyd rhai pryderon gan uwch weithredwyr ynghylch eglurder priod rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Weithrediaeth. Parhaodd y pryderon hyn trwy gydol 2021/22, ac i mewn i 2022/23. Tynnwyd y materion hyn i sylw Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru.**

**Cafodd y materion hyn effaith arwyddocaol yn 2021/22 a 2022/23, ac maent wedi mynnu amser gan uwch aelodau staff ac Ymddiriedolwyr. Mae sawl proses wedi'u defnyddio, gan gynnwys cwynion, hawliadau mewn tribiwnlys cyflogaeth ac un mater a godwyd o dan weithdrefn chwythu'r chwiban. Mae'r holl brosesau hyn wedi'u dwyn i sylw'r archwilwyr mewnol ac allanol. Bu'n rhaid dibynnu ar gymorth a chyngor cyfreithiol a arweiniodd at gost sylweddol yn 2021/22 ac a barhaodd yn 2022/23. Cafodd un o honiadau'r tribiwnlys ei setlo ym mis Mehefin 2022. Cafodd yr ail set o honiadau ei ddatrys trwy broses gyfryngu ym mis Rhagfyr 2022. Cyn dechrau'r broses gyfryngu, cafodd yr Ymddiriedolwyr eu harwain gan gyngor a chefnogaeth cyfreithiol cadarn, mewn modd oedd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth fasnachol bosibl yn cael ei chadw gan yr Ymddiriedolwyr yn unig. Cafodd y broses gyfryngu ei chynnal ar y cyd**

**rhwng yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru, a ddaeth â'r mater cymhleth hwn i ben. Gan fod y digwyddiad gwreiddiol yn deillio o 2021/22, mae swm setlo'r hawliad hwn wedi'i gynnwys yn y cyfrifon hyn. Roedd y cytundebau setliad hyn yn rhai cymhleth ac maent wedi'u trafod yn fanwl ag Archwilio Cymru., er mwyn sicrhau bod y materion wedi'u datgelu'n llawn ac yn gywir. Dyma'r rheswm dros yr oedi cyn cyhoeddi Adroddiad Ariannol a Chyfrifon 2021/22.**

**Er gwaethaf yr uchod, roedd adolygiad llywodraethu wedi'i deilwra wedi'i drefnu ar gyfer Amgueddfa Cymru gan Lywodraeth Cymru. Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn 2022/23 a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar eu gwefan ar 13 Gorffennaf 2023.**

**6. Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol**

**Yn ystod 2021/22, yn ogystal â her barhaus gwireddu'n gweledigaeth â llai o gronfeydd wrth gefn, fel pob sefydliad arall roeddem yn parhau i wynebu amgylchiadau digynsail a oedd yn newid yn gyflym, yn sgil y pandemig COVID-19. Drwy addasu'n harlwy a'n systemau mewnol yn ôl yr angen, parhawyd i weithredu'n gweledigaeth ddeng mlynedd, fel yr amlinellir ar dudalennau 7-8, y cytunwyd arni gan y Bwrdd. Byddwn yn parhau i weithredu ein gweledigaeth yn 2022/23. Wrth symud ymlaen fe wnawn y canlynol:**

- **Rhoi'n strategaeth newydd hyd at 2030 a'n brand newydd ar waith. Bydd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth a datblygu ymhellach ar ein hymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau gan gynnwys y rhai a amlygwyd drwy'r Cynllun Ehangu Ymgysylltiad rydyn ni wedi'i gyhoeddi, yn golofnau allweddol yn y strategaeth.**
- **Cymryd y camau a nodwyd yn ein Cynllun Ehangu Ymgysylltiad a ddatblygwyd ac a gyhoeddwyd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru.**
- **Rhoi'n Strategaeth Cynhyrchu Incwm ar waith, a pharhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru ar gyllid i helpu i gyflawni'n strategaeth hyd at 2030**
- **Parhau i adfer cyflwr arferol gwaith yr Amgueddfa yn sgil y pandemig Covid-19. Bydd hyn yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio i'n staff.**
- **Cefnogi prif elfennau'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu cynlluniau i greu Amgueddfa'r Gogledd yn ogystal ag Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.**
- **Cwblhau Uwchgynllun Cysyniad Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.**
- **Diweddaru'r Strategaeth Ddigidol, gan gynnwys uwchraddio'n seilwaith, i ategu'n Strategaeth hyd at 2030, gweddnewid arlwy ein profiad digidol i ymwelwyr, ac ymgorffori effeithlonrwydd, lles ac enillion amgylcheddol yn sgil gweithio o bell.**
- **Parhau i roi'n Cynllun Rheoli Carbon ar waith, gan sicrhau ein bod yn cyfrannu at gynlluniau dim carbon ar gyfer 2030.**


- § Dechrau gweithredu Strategaeth Adeiladau ac Ystadau 5-mlynedd i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw hanfodol sydd â blaenoriaeth, a pharhau i weithredu'r Rhaglen Cynnal a Chadw Hanfodol bresennol.
- § Adolygu strwythurau llywodraethu a phrosesau penderfynu yn unol â'r adolygiad wedi'i deilwra gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys diweddaru'n prosesau rheoli risg a sicrwydd gan ganolbwyntio ar sbarduno newid cadarnhaol
- § Yn dilyn ein llwyddiant wrth ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, gweithio tuag at lefel achredu uwch.
- § Parhau i gyflawni rhaglenni datblygu arweinwyr i ystod ehangach o staff yr Amgueddfa.
- § Gwella'r prosesau busnes ar draws y sefydliad, gan gynnwys parhau i roi systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd ar waith, a systemau Adnoddau Dynol newydd.

## 7. Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn sy'n dod, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ymhellach ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a byddwn yn monitro sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad nesaf.



***Jane Richardson***
**Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**



***Hywel John***
**Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**

## Adran 2.2 Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a Staff

**Cyfle Cyfartal**

**Mae gennym amrywiaeth o bolisïau sy'n cefnogi ein cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n rhoi Dyletswydd Gyffredinol statudol ar bob sefydliad yn y sector cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng dynion a menywod mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Gwnaethom hefyd barhau i weithredu ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2022-2025, sydd i'w gweld ar ein gwefan yn https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/ ynghyd â'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad: https://amgueddfa.cymru/nodau/gweledigaeth-ymrwymiadau-a-gwerthoedd/ymchwil-ehangu-ymgysylltiad/
Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant i staff ac ymwelwyr.**

**Fel rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, rydym wedi cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i gytuno ar amcanion strategol cyffredin er mwyn datblygu dull ar y cyd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Erbyn hyn mae grwpiau Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys holl aelodau'r Bartneriaeth wedi'u sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r gwaith cydweithredol hwn yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod llesiant cenedlaethol 'Cymru Fwy Cyfartal'.**

**Rydym wedi parhau i gyflwyno hyfforddiant a datblygiad mewn cydraddoldebau, gan gynnwys hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a Rhagfarn Ddiarwybod. Rydym hefyd wedi cael ein hyfforddi fel hyfforddwyr gan Brifysgol Caerdydd, ar bynciau sy'n berthnasol iddyn nhw, gan gynnwys terminoleg LHDTC+.**

**Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hiliaeth yn benodol, yn sgil mudiad Mae Bywydau Duon o Bwys ac rydyn ni wrthi'n chwilio am Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth i bob aelod o'r staff. Rydym wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn ein sefydliad drwy gynnig cyfweliad ar gyfer rolau Cymunedol newydd i ymgeiswyr mewnol ac allanol o gymunedau sy'n profi anghydraddoldebau hiliol, os oedden nhw'n bodloni'r meini prawf hanfodol.**

**Y bwlch cyflog cymedrig diweddaraf rhwng y rhywiau a gyhoeddwyd gennym (sef y gwahaniaeth rhwng cyflog dynion a menywod fesul awr) oedd 2.67% ar gyfer 2020/21 (4.09% ar gyfer 2019/20), a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau oedd 2.38% (2.64% ar gyfer 2019/20), sy'n ostyngiad arwyddocaol dros ddwy flynedd o 9.34% yn 2018/19. Mae'r gostyngiad yn deillio o recriwtio cryn dipyn yn fwy o ddynion yn ystod y cyfnod hwn i rolau yn y chwartel isaf ynghyd â rhywfaint o recriwtio menywod uwch. Cyhoeddir ein Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth yn ystod 2022/2023.**

**Rydym wedi nodi nifer o gamau sydd wedi cael eu rhoi ar waith ac a fydd yn cael eu rhoi ar waith er mwyn lleihau'r bwlch cyflog. Mae'r rhain yn cynnwys camau sy'n ymwneud â chyflog, polisi, recriwtio, dysgu a datblygu, gweithio'n hyblyg a chasglu data.**

**Polisïau ar gyfer Gweithwyr Cyflogedig Anabl**

**Rydym yn dal i ddefnyddio'n cynllun gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl yn y broses recriwtio, sydd wedi arwain at weld 20% o'r ymgeiswyr yn nodi bod ganddyn nhw anabledd wrth recriwtio'n ddiweddar. Bydd unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd yn cael ei wahodd yn awtomatig i gyfweliad.**

**Mae gennym bolisïau ar waith i gefnogi gweithwyr cyflogedig anabl i wneud cais am addasiadau rhesymol yn y gweithle. Os bydd unrhyw nodwedd ffisegol yn y gweithle yn rhoi aelod anabl o staff dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, gellir gwneud cais er mwyn rhoi camau ar waith i atal hyn. Gellir gwneud trefniadau sy'n cynnwys, er enghraifft, newidiadau i batrymau gwaith, cynnwys neu ddyluniad y swydd, lleoliad a math y dodrefn a chyfarpar neu feddalwedd TG arbenigol. Rydym wedi mynd i'r afael ag anableddau cudd drwy ddatblygu ffilm fer o unigolyn â chlefyd Parkinson. Rydym wedi canolbwyntio hefyd ar hyfforddiant yn Iaith Arwyddion Prydain i aelodau o'r staff i helpu i gefnogi BSL fel ein trydedd iaith.**

**Mae ein Polisi Hyfforddi a Datblygu ar gael i bob aelod o'r staff beth bynnag yw ei nodweddion gwarchodedig. Gellir gwneud addasiadau rhesymol hefyd i ddileu rhwystrau ar gyfer cymryd rhan yn ein rhaglenni dysgu a datblygu, ac rydyn ni wrthi'n datblygu llwyfan dysgu newydd i sicrhau hygyrchedd i bawb.**

**Ymgynghori â'r Staff**

**Rydym yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005, gan ymgynghori â staff, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar newidiadau mawr yn y sefydliad, y polisïau a'r cynlluniau at y dyfodol. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm y Staff rhwng rheolwyr a chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig i drafod materion o bwys, a chaiff cofnodion y cyfarfodydd hyn eu hadrodd yn ffurfiol i'r Uwch Dîm Gweithredol. Mae'r Fforwm Iechyd a Diogelwch hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r undebau llafur a rheolwyr.**

**Mae cynrychiolwyr o'r undebau a gydnabyddir gennym yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Gweithredol y Staff. Ategir y gofyniad cyfreithiol i ymgynghori gan amrywiol ddulliau, gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adrannol, gweithgorau, cyfathrebiadau dros yr e-bost a'r fewnrwyd, a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol. Mae croeso hefyd i gynrychiolwyr o'r undebau llafur a'r staff ddod i gyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cael eu hysbysebu ar ein gwefan.**

**Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â staff ac undebau llafur ar newidiadau i'r sefydliad, gan gynnwys mentrau newydd fel Buddsoddwyr mewn Pobl, newidiadau i strwythurau adrannau a diwygiadau i bolisïau.**

**Mae sesiynau briffio staff misol yn cael eu cynnal gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i gyd-Gyfarwyddwyr, gyda chymorth recordiadau a chyfathrebu cyson â'r staff drwy'r e-bost.**

**Hyfforddiant Staff**

**Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi, ffurfiol ac anffurfiol, i'r gweithwyr. Rydym yn dal i weithio ar ein statws Buddsoddwyr mewn Pobl er mwyn adeiladu ar gampau'r gorffennol a defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu fel rhan o'r arolygon rheolaidd i olrhain gwelliannau.**

**Rydym wedi cydnabod bod sgiliau arwain yn hollbwysig i gyflawni'n nodau ar gyfer y dyfodol yn llwyddiannus ac felly rydym wedi darparu rhaglen o hyfforddiant arweinyddiaeth a hyfforddiant i ddarpar arweinwyr.**

**Rydym wedi parhau i gynnig hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl, ac wedi hyfforddi tîm o Ymgeleddwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau mewn meysydd fel diogelu data, urddas yn y gwaith, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a diogelwch i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthynol, yn ogystal â chyfleoedd datblygu personol yn ôl yr angen.**

**Mae prentisiaethau'n parhau i gael eu cynnig yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru i hyfforddi Tywysyddion Pyllau Glo a Pheirianegwyr Mecanyddol a Thrydanol. Rydym yn cydnabod bod prentisiaethau'n helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ac i weithredu cynlluniau olyniaeth yn y meysydd hyn.**

**Data ar Absenoldeb Salwch**

**Mae gennym bolisïau i gefnogi'r gwaith o reoli presenoldeb yn y gwaith. Mae pob absenoldeb yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan reolwyr llinell a'r Adran Adnoddau Dynol. 3.66% neu 8.90 o ddiwrnodau oedd lefel yr absenoldeb ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2022 (1.64% neu 5.07 o ddiwrnodau yn 2020/21). Rydym wedi gweithio gyda rheolwyr llinell i roi sylw i'r cyfraddau uchel o absenoldeb ac i gadw llygad barcut ar reolaeth presenoldeb er mwyn sicrhau bod ein polisïau, gan gynnwys cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith, yn cael eu cynnal mewn modd cyson. Mae absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn dal i effeithio ar y cyfnod hwn.**

**I ategu'n prosesau rheoli presenoldeb a hybu llesiant staff, rydym yn cynnig Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sef gwasanaeth annibynnol a chyfrinachol am ddim sydd ar gael i bob aelod o'r staff. Mae'r rhaglen yn cynnig cyngor, gwybodaeth, cwnsela arbenigol a chefnogaeth. Ymhlith y gwasanaethau a gynigir mae cwnsela dros y ffôn, adnoddau i reolwyr, gwybodaeth a chyngor ar ystod eang o faterion, cwnsela wyneb yn wyneb a gwasanaeth gwybodaeth ar-lein. Mae Ymgeleddwyr Iechyd Meddwl hefyd yn gallu cyfeirio unigolion at gymorth ar draws y sefydliad.**

**Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth**

**Mae gennym strwythur cyflogau a graddfeydd y cytunwyd arno, a chyflwynwyd hwn er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Mae'n cwmpasu pob gweithiwr cyflogedig, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n cytuno ar delerau ac amodau ei benodiad ef.**

**Bob blwyddyn, rydym yn ystyried y pecyn cyflogau ac yn datblygu cynnig cylch cyflog, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac sy'n sail i drafodaethau gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau diwygiedig ar gyfer y sefydliad cyfan, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn deillio o hyn. Rhaid cydymffurfio â'r pecyn hwn tan y cylch trafod nesaf. Mae cynyddrannau blynyddol o dan y cylch cyflog yn dibynnu ar y system o adolygiadau datblygiad personol.**

**Dangosir y cyfarwyddwyr ar dudalennau 27-28. Mae rhagor o fanylion am eu taliadau a'u buddion pensiwn i'w gweld isod ac mae'r wybodaeth honno'n destun archwiliad. Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol oni nodir hynny isod, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan amodau a thelerau safonol Amgueddfa Cymru. Mae unrhyw newidiadau i amodau a thelerau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a (lle y bo'n briodol) Llywodraeth Cymru. Datgelir y berthynas rhwng taliad y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn y sefydliad a thaliad canolrifol gweithlu'r sefydliad isod.**

**Deuddeng mis yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a chwe mis fel arfer ar gyfer y cyfarwyddwyr eraill. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y gyfarwyddiaeth gyfredol, sef yr Uwch Dîm Gweithredol, fel cyfarwyddwyr:**

| | |
|---|---|
| **David Anderson (Cyfarwyddwr Cyffredinol) *** | **11 Hydref 2010 (ymddiswyddodd 31 Mawrth 2023)** |
| **Philip Bushby** | **4 Ionawr 2021** |
| **Kath Davies** | **6 Ionawr 2020** |
| **Nia Elias** | **12 Ebrill 2021** |
| **Peter Holt **** | **9 Medi 2022** |
| **Janice Lane** | **3 Medi 2012** |
| **Jane Richardson** | **11 Medi 2023** |
| **Neil Wicks** | **27 Mehefin 2011 (wedi ymddeol 31 Gorffennaf 2022)** |
| **Nia Williams** | **17 Hydref 2016** |

*** Camodd David Anderson yn ôl o'i rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 17 Tachwedd 2022**
**** Mae Peter Holt yn cael ei gyflogi ar gontract tymor penodol fel Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro.**

**Mae ein trefniant dileu swyddi safonol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal am derfynu swydd yn gynnar. Mae manylion unrhyw daliadau diswyddo a wnaed i weithwyr cyflogedig yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn nodyn 8 i'r cyfrifon.**

**Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £59,000 (£6,000 yn 2020/21) ar gyfer staff asiantaeth a £5,000 (£5,000 yn 2020/21) ar gyfer staff ymgynghorol. Ni chyflogwyd unrhyw unigolion yn 2020/21 na 2021/22 o dan drefniadau 'oddi ar y gyflogres' am fwy na £220 y dydd ac am gyfnod hwy na chwe mis.**

**Nid gweithiwr cyflogedig i Amgueddfa Cymru yw'r Llywydd. Ceir manylion cydnabyddiaeth ariannol y Llywydd ar dudalen 33 o'r adroddiad hwn.**

## Taliadau Cydnabyddiaeth a Buddion Pensiwn y Cyfarwyddwyr

| Cyfanswm Ffigur y Taliadau Cydnabyddiaeth | Band cyflog 2021/22 (2020/21) £'000 | Band bonws 2021/22 (2020/21) £'000 | Buddion mewn da 2021/22 (2020/21) £'000 | Buddion pensiwn 2021/22 (2020/21) £'000 | **Cyfanswm y band 2021/22 (2020/21) £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| David Anderson *Nodyn 1* | 305-310 | - | - | 20 | **325-330** |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol | (105-110) | - | - | (21) | (125-130) |
| Neil Wicks *Nodyn 2* | 100-105 | - | - | 13 | **110-115** |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | (85-90) | - | - | (12) | (95-100) |
| Janice Lane | 80-85 | - | - | 12 | **90-95** |
| Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | (75-80) | - | - | (11) | (90-95) |
| Nia Williams | 80-85 | - | - | 11 | **90-95** |
| Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | (75-80) | - | - | (10) | (85-90) |
| Kath Davies | 80-85 | - | - | 9 | **85-90** |
| Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | (75-80) | - | - | (10) | (85-90) |
| Philip Bushby | 80-85 | - | - | 8 | **85-90** |
| Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | (15-20) | - | - | (2) | (20-25) |
| Nia Elias | 75-80 | - | - | 3 | **80-85** |
| Cyfarwyddwr Datblygu Busnes | - | - | - | - | **-** |

***Nodyn 1:*** **Roedd enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £108,934 (£106,902 yn 2020/21), taliad ex-gratia o £50,000 ynghylch hawliad tribiwnlys a dalwyd yn 2022/23 a'u cronni yn y cyfrifon hyn, £20,000 o daliadau terfynu i'w talu yn 2023/24 a'u cronni yn y cyfrifon hyn, cyflog sylfaenol o £108,934 yn 2023/24 ar gyfer cyfnod hysbysu contractol y darparwyd ar ei gyfer yn y cyfrifon hyn, a chyflog sylfaenol o £21,679 yn 2024/25 fel rhan o'r setliad terfynol a negodwyd, y darparwyd ar ei gyfer yn y cyfrifon hyn. Cyfeirir at y taliadau hyn yn Nodyn 8 Costau Staff a Nodyn 26 Digwyddiadau ar ôl y Fantolen. Mae buddion pensiwn y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi'u cyfrifo yn dilyn canllawiau Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 452 Swyddfa'r Cabinet fel y nodir isod, ac ni chânt eu heffeithio gan gyfraniadau pensiwn y cyflogwr cronnus a dalwyd ar ôl 31 Mawrth 2022.**

***Nodyn 2:*** **yn cynnwys taliad ex-gratia o £12,000 ynghylch hawliad tribiwnlys, a dalwyd yn 2022/23 a'u cronni yn y cyfrifon hyn, y cyfeirir atynt yn Nodyn 8 Costau Staff a Nodyn 26 Digwyddiadau ar ôl y Fantolen.**

**Mae'r cyfarwyddwyr i gyd yn aelodau cyffredin o'r cynllun pensiwn. Cyfrifwyd gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl uchod gan ddilyn canllawiau Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 452 Swyddfa'r Cabinet, trwy luosi'r gwir gynnydd mewn pensiwn ag 20 ac ychwanegu'r gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad, heb gynnwys cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.**

**Cyflogwyd y cyfarwyddwyr trwy gydol 2021/22 a 2020/21, ac eithrio:**

- **Philip Bushby a ddaeth i'w swydd ar 4 Ionawr 2021. Roedd ei enillion ef fel Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn cynnwys cyflog sylfaenol fel y'i nodir uchod. Roedd ei gyflog blynyddol fel Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ar gyfer 2020/21 rhwng £75,000 ac £80,000**
- **Nia Elias a ddaeth i'w swydd ar 12 Ebrill 2021. Roedd ei henillion hi fel Cyfarwyddwr Datblygu Busnes yn cynnwys cyflog sylfaenol fel y'i nodir uchod. Roedd ei chyflog blynyddol fel Cyfarwyddwr Datblygu Busnes ar gyfer 2021/22 rhwng £80,000 ac £85,000**

**Buddion Pensiwn**

| | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad perthnasol ar 60 oed £ | Pensiwn a gronnwyd ar 60 oed ar 31 Mawrth 2022 a chyfandaliad perthnasol £ | CETV ar 31 Mawrth 22 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 21 neu ar ddyddiad penodi os yw'n hwyrach £'000 | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV uwchlaw cyfraniadau aelodau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| David Anderson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 0-2,500 a chyfandaliad 2,500-5,000 | 15,000-20,000 a chyfandaliad 50,000-55,000 | 393 | 360 | (2) |
| Neil Wicks<br>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | (0-2,500) a chyfandaliad (2,500-5,000) | 40,000-45,000 a chyfandaliad 125,000-130,000 | 887 | 833 | (21) |
| Janice Lane<br>Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | (0-2,500) a chyfandaliad (0-2,500) | 30,000-35,000 a chyfandaliad 90,000-95,000 | 629 | 592 | (12) |
| Nia Williams<br>Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | 0-2,500 a chyfandaliad 0-2,500 | 15,000-20,000 a chyfandaliad 50,000-55,000 | 401 | 371 | (3) |
| Kath Davies<br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 0-2,500 a chyfandaliad 0-2,500 | 0-5,000 a chyfandaliad 5,000-10,000 | 37 | 21 | 7 |
| Philip Bushby<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | 0-2,500 a chyfandaliad 2,500-5,000 | 0-5,000 a chyfandaliad 0-5,000 | 18 | 4 | 7 |
| Nia Elias<br>Cyfarwyddwr Datblygu Busnes | 0-2,500 a chyfandaliad 2,500-5,000 | 0-5,000 a chyfandaliad 0-5,000 | 10 | - | 3 |

**Mae buddion pensiwn y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi'u cyfrifo yn dilyn canllawiau Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 452 Swyddfa'r Cabinet fel y nodir isod, ac ni chânt eu heffeithio gan gyfraniadau pensiwn y cyflogwr cronnus a dalwyd ar ôl 31 Mawrth 2022.**

**Y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actiwari. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a**

**gronnwyd oherwydd chwyddiant, na chyfraniadau a dalwyd gan y gweithwyr cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall).**

**Nifer y Gweithwyr Cyflogedig**

**Nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig yn 2021/22, ac eithrio gweithwyr a oedd yn rhan o'n trefniadau cronfa lafur, oedd 686 (668 yn 2020/21). Y nifer cyfartalog, gan gynnwys gweithwyr a oedd yn rhan o'n trefniadau cronfa lafur, oedd 812 (817 yn 2020/21).**

**Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys gweithwyr a oedd yn rhan o'n trefniadau cronfa lafur, fel a ganlyn:**

| | Staff Parhaol | Staff Eraill | **2021/22 Nifer** | 2020/21 Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Is-gwmni Masnachu | 32 | 6 | **38** | 40 |
| Codi Arian | 6 | 2 | **8** | 8 |
| Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | 50 | 11 | **61** | 59 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 82 | 11 | **93** | 90 |
| Profiad Ymwelwyr | 227 | 43 | **270** | 256 |
| Cymorth | 74 | 15 | **89** | 80 |
| | 471 | 88 | **559** | 533 |

| | Staff Benyw | Staff Gwryw | **2021/22 Nifer** | 2020/21 Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 4 | 3 | **7** | 5 |
| Gweithwyr cyflogedig | 292 | 260 | **552** | 528 |
| | 296 | 263 | **559** | 533 |

**Mae'r cynnydd yng nghyfanswm nifer y gweithwyr cyflogedig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn cyd-fynd â'r disgwyl, o gofio bod ein Hamgueddfeydd ar gau am lai o'r amser.**

**Gweithwyr Cyflogedig (ac eithrio Cyfarwyddwyr) ag Enillion Dros £60,000**

**Roedd 17 o weithwyr cyflogedig (14 yn 2020/21) ag enillion rhwng £60,001 a £69,999 ar gyfer y flwyddyn ac un (un yn 2020/21) ag enillion rhwng £70,000 a £79,999. Mae pob un o'r gweithwyr cyflogedig hyn yn aelodau cyffredin o'n cynllun pensiwn. Nid oedd unrhyw weithwyr cyflogedig eraill yn ennill dros £60,000 ac eithrio'r cyfarwyddwyr, a datgelir eu henillion nhw uchod.**

**Canolrif Tâl**

**Mae'n ofynnol i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr uchaf ei gyflog yn y sefydliad a'r 25ain ganradd, y canolrif a'r 75ain ganradd yn nhâl gweithlu'r sefydliad. Band tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn 2021/22, oedd £105,000-£110,000 (£105,000-£110,000 yn 2020/21). Dangosir y canraddau tal a'r cymarebau yn y tabl isod. Ni chafodd yr un gweithiwr cyflogedig fwy o dâl na'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2021/22 na 2020/21. Roedd y tâl (heb gynnwys y cyfarwyddwyr a'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) yn amrywio o £20,292 to £108,934 (2020/21 £19,797 i £106,902). Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol sy'n seiliedig ar berfformiad, a buddion mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na'r gwerth trosglwyddo pensiwn sy'n gyfwerth ag arian parod. Yn 2021/22 a 2020/21 ni chafodd unrhyw weithwyr cyflogedig unrhyw dâl anghyfunol sy'n seiliedig ar berfformiad na buddion mewn da, felly mae cyfanswm y ffigurau cyflog a ddatgelir yn y tabl isod yn cyfeirio at gyfanswm y cyflog, sef cyfanswm y tâl.**

| | **2021/22** | 2020/21 |
|---|---|---|
| Band yr Unigolyn â'r Tâl Uchaf | **105,000-110,000** | 105,000-110,000 |
| 25ain Ganradd o'r Cyfanswm Tâl | **21,995** | 20,930 |
| 25ain Ganradd o'r Gymhareb Tâl | **4.9** | 5.1 |
| Cyfanswm Tâl Canolrifol | **25,585** | 24,961 |
| Cymhareb Tâl Canolrifol | **4.2** | 4.3 |
| 75ain Ganradd o'r Cyfanswm Tâl | **32,460** | 31,724 |
| 75ain Ganradd o'r Gymhareb Tâl | **3.3** | 3.4 |

**0% oedd y newid canrannol mewn cyflog i'r unigolyn â'r cyflog uchaf, sef y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn seiliedig ar bwynt canol y band cyflog (4.9% yn 2020/21), ac yn seiliedig ar y cyflog gwirioneddol roedd yn 1.9% (2.5% yn 2020/21). Roedd y newid canrannol cyfartalog mewn cyflog i'r holl weithwyr, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn 3.3% (1.0% yn 2020/21). Yr esboniad am y gostyngiad bach yn y 25ain ganradd, y canolrif a'r 75ain ganradd yw bod cynnydd tâl uwch wedi'i ddyfarnu yn 2021/22 i staff ar raddau is (2.5%) o'i gymharu â staff ar raddau uwch (1.9%). Rydyn ni'n credu bod y gymhareb gyflog ganolrifol ar gyfer 2021/22 yn gyson â'r polisïau ar gyflog, gwobrwyo a dilyniant i'n gweithlu ni.**

**Staff a osodwyd ar Ffyrlo o dan y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS)**

**Yn 2021/22 cafodd cyfanswm o 411 o aelodau staff (546 yn 2020/21) eu gosod ar ffyrlo ar sail amser llawn neu ran-amser am o leiaf wythnos. Cyfartaledd nifer y staff a oedd wedi'u gosod ar ffyrlo yn amser llawn neu'n rhan-amser bob mis o ddechrau'r flwyddyn tan ddiwedd y cynllun ar 30 Medi 2021 oedd 137 (361 yn 2020/21, a'r nifer gyfartalog o staff ar ffyrlo bob mis y cyflwynwyd ceisiadau i'r**

**CJRS ar eu cyfer oedd 88 (311 yn 2020/21). Cafodd cyfanswm o £356,000 (£3.1m yn 2020/21) o gyllid CJRS ei hawlio, ar gyfer cyfnodau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mai 2021. Hawliwyd cyllid CJRS hyd at swm yr incwm heblaw incwm o'r llywodraeth a gollwyd (yn net o gostau uniongyrchol a arbedwyd) o ganlyniad i gau safleoedd a chyfyngiadau oherwydd y pandemig COVID-19. Roedd angen yr hawliadau hyn gan fod incwm heblaw incwm o'r llywodraeth yn rhan o'n cyllideb refeniw graidd, ac maent wedi diogelu cynaliadwyedd ariannol tymor byr y sefydliad.**

**Trefnwyd bod yr holl staff a oedd ar ffyrlo ar gael i Lywodraeth Cymru i'w hadleoli. Yn 2020/21 cafodd un aelod staff ei secondio i Lywodraeth Cymru am dri mis yn rhan-amser, i helpu gyda chyfathrebu. Hefyd yn 2020/21 cafodd aelod arall o staff ostyngiad dros dro o 80% yn ei oriau i'w alluogi i weithio i'r Adran Datblygu Rhyngwladol am dri mis, i gynorthwyo gydag ymateb caffael llywodraeth y DU i bandemig COVID-19. Ni wnaed hawliadau i'r CJRS ar gyfer y naill na'r llall o'r gweithwyr hyn.**

***Jane Richardson***
**Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**

***Hywel John***
**Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**

## Adran 2.3: Adroddiad Archwilio

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

**Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol a'r Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r SORP ar gyfer Elusennau (FRS102).**

**Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:**

- **yn rhoi darlun teg a chywir o faterion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'i gwariant net ar 31 Mawrth 2022;**
- **wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r SORP ar gyfer Elusennau (FRS102); ac**
- **wedi'u paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.**

### Barn Amodol ar Reoleidd-dra

**Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn adran 'Sail y farn amodol ar reoleidd-dra' fy adroddiad, ym mhob ffordd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.**

### Sail y farn amodol ar reoleidd-dra

**Ni allaf fod yn fodlon fod ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i wneud penderfyniadau call a gwybodus er lles Amgueddfa Genedlaethol Cymru pan wnaethant:**

- **benderfynu cymryd rhan mewn proses gyfryngu/negodi gyda'i Gyfarwyddwr Cyffredinol;**
- **penderfynu dirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r cytundebau setliad i ddau ymddiriedolwr; ac**
- **gosod telerau'r dirprwyaethau.**

**Rydw i felly wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra gan na allaf fod yn fodlon fod y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at daliadau i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dan delerau cytundeb setliad dyddiedig Rhagfyr 2022 yn cydymffurfio â chyfraith elusennau a bod y taliadau o £325,698 yn y flwyddyn, a ddatgelwyd yn yr Adroddiad ar Dâl, yn cydymffurfio â fframwaith yr awdurdodau sy'n eu llywodraethu.**

Mae mwy o fanylder yn fy Adroddiad ar dudalennau 62 i 65.

## Mater arall

Rydw i'n tynnu sylw at y datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynglŷn â gwendidau yn y trefniadau llywodraethu oedd ar waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod 2021/22.

## Sail y farn

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Mae fy nghyfrifoldebau i o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gesglais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i fy marn.

## Casgliadau ynghylch busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail busnes hyfyw o fewn cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o fewn cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Materion eraill

Rydw i'n tynnu sylw at y datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynglŷn â gwendidau yn y trefniadau llywodraethu oedd ar waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod 2021/22.

## Gwybodaeth arall

Yr wybodaeth arall yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ariannol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad archwilydd i ar y rhain. Mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy yn nodi'r gofynion ynglŷn â gwybodaeth arall, ond nid yw'r Datganiad na'r ddeddfwriaeth, na'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu neu'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad ariannol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn rhoi

**unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad.**

**Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sy'n ymddangos yn sylweddol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, fod camddatganiad o bwys ynglŷn â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.**

**Nid oes gennyf ddim i adrodd arno yn hyn o beth.**

## Adroddiad ar ofynion eraill

**Barn ar faterion eraill**

**Mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy yn nodi'r gofynion ynglŷn â gwybodaeth arall, ond nid yw'r Datganiad na'r ddeddfwriaeth, na'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu neu'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol. Gan hynny, nid wyf yn gallu cadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu neu'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a roddwyd gyda'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r canllawiau.**

**Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr wybodaeth arall sydd i'w rhoi gyda'r datganiadau ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.**

**Er nad oes gofynion yn y ddeddfwriaeth ynglŷn ag Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth, mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol fel arfer iddi gael ei harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.**

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt gydag eithriad**

**Ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn yr adran 'Sail y farn amodol ar reoleidd-dra', nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu.**

**Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd wrthych amdanynt os, yn fy marn i:**

- **nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw na ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi dod i law oddi wrth ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;**
- **nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;**

- nad yw gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn pob gwybodaeth ac esboniad sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru oddi tani, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n penderfynu bod ei hangen er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad o bwys, boed trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai yr ystyrir bod hynny'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol am a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel sicrwydd uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn datgelu camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol y byddent, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Yr wyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Amgueddfa Genedlaethol Cymru ynglŷn â'r canlynol:
    - § nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â'r rhain, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
    - § canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r

- § rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll pe bai rheolwyr yn diystyru rheolaethau, a ystyrir yn risg sylweddol ym mhob corff sy'n cael ei archwilio.

- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae'n gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu'r gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau perthnasol eraill; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll pe bai'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb y cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn awgrymu tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Hefyd, mynegais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae anhawster cynhenid darganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir oll yn effeithio ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra
Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i minnau sicrhau digon o dystiolaeth er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad**

**Mae fy Adroddiad ar dudalennau 62 i 65 yn rhoi mwy o fanylder ynghylch taliadau afreolaidd a gytunir arnynt dan delerau Cytundeb Setliad i gyn Gyfarwyddwr Cyffredinol a Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth am y gwendidau yn y trefniadau llywodraethu oedd ar waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn.**

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**28 Medi 2023**

**1 Capital Quarter**
**Tyndall Street**
**Caerdydd**
**CF10 4BZ**

**Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw gwefan Amgueddfa Cymru a'i chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.**

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Cyflwyniad

1 O dan Adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, rydw i'n gyfrifol am archwilio, ardystio, ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

2 Yn yr adroddiad hwn ar ddatganiadau ariannol 2021/22 Amgueddfa Genedlaethol Cymru, rydw i'n amlinellu fy rhesymau dros:

- amodi fy marn archwilio ar reoleidd-dra sy'n ymwneud â thaliadau i'r cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol; a
- tynnu sylw yn adran Materion Eraill fy Nhystysgrif at wendidau yn y fframwaith llywodraethu cyffredinol sydd ar waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

### Amodi'r farn ar reoleidd-dra ynglŷn â thaliadau i gyn Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Genedlaethol Cymru

3 Mae'n ofynnol i mi gadarnhau ym mhob ffordd o bwys fod gwariant ac incwm yn natganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â fframwaith yr awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

4 Mae fframwaith yr awdurdodau rydw i'n eu hystyried wrth roi fy marn ar reoleidd-dra yn cynnwys:

- awdurdodi deddfwriaeth;
- rheoliadau a ddyroddwyd dan ddeddfwriaeth lywodraethol;
- awdurdodau seneddol, gan gynnwys y Senedd; a'r
- llywodraeth neu awdurdodau cysylltiedig (er enghraifft, cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru').

5 Gan fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn elusen, mae'r fframwaith hwnnw'n cynnwys cyfraith elusennau a'i dogfennau llywodraethol, yn benodol ei 'Siarter Frenhinol a statudau'.

6 Rydw i wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2021/22 Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan na allaf fod yn fodlon fod taliadau i'r cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol i setlo anghydfod cyflogaeth yn cydymffurfio â gofynion cyfraith elusennau.

### Telerau'r Cytundeb Setliad

7 Cytunwyd ar y taliadau arfaethedig gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dan Gytundeb Setliad ('y Cytundeb') dyddiedig 5 Rhagfyr 2022 i ddatrys anghydfod cyflogaeth ffurfiol, hirsefydlog rhwng y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

8 Cytunodd y partïon i ymrwymo i'r Cytundeb yn hytrach na cheisio datrys drwy dribiwnlys cyflogaeth.

9 O dan delerau'r Cytundeb, cytunodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai'n gadael ei rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac y byddai'n dechrau rôl newydd fel Cymrawd Emeritws yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Athro Gwadd ym Mhrifysgol Caerdydd ar 1 Ebrill 2023. Byddai'n dal i gael ei gyflogi yn ôl y gyfraith gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru; yn cadw ei dâl ac amodau cyflogaeth presennol nes 31 Mawrth 2024; ond ni fyddai'n atebol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru wrth gyflawni'r rôl newydd hon. Byddai'n lleihau ei oriau gwaith i ddau ddiwrnod yr wythnos ar 1 Ebrill 2024.

10 Roedd y Cytundeb yn pennu y byddai cyflogaeth y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn dod i ben ar 30 Medi 2024.

11 O dan delerau'r Cytundeb, cytunodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru i dalu cyfanswm o £325,698 i'r cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol, wedi'i rannu fel a ganlyn:

- £225,698 cyflog gan gynnwys pensiwn ac yswiriant gwladol dros y cyfnod 17 Tachwedd 2021 hyd at 30 Medi 2024[1].
- £50,000 di-dreth fel iawndal ar gyfer anaf i'w deimladau ar 19 Rhagfyr 2022.
- £30,000 fel uchafswm ar gyfer treuliau dros y cyfnod 1 Ebrill 2023 hyd at 30 Medi 2024[2]; ac
- £20,000 taliad di-dreth dod â swydd i ben ar gyfer colli swydd sy'n daladwy ar 30 Medi 2024.

12 Fel yr amlinellwyd, mae'r taliadau hyn i'w talu ym mlynyddoedd ariannol 2022/23, 2023/24 a 2024/25. Fodd bynnag, mae'r taliadau o £325,698, sy'n cynnwys cyfnod rhybudd cytundebol o flwyddyn o gyflog, wedi cael eu cynnwys fel Costau Staff ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r taliadau o £325,698 hefyd wedi cael eu datgelu yn yr Adroddiad ar Dâl, nodyn costau staff, nodyn credydwyr ill dau o fewn y flwyddyn ac ar ôl un flwyddyn, a nodyn darpariaethau.

## Cydymffurfedd â fframwaith yr awdurdodau

13 Ni allaf fod yn fodlon fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cydymffurfio â fframwaith yr awdurdodau pan benderfynodd wneud taliadau i'w Chyfarwyddwr Cyffredinol fel yr amlinellir ym mharagraff 11.

14 Yn benodol, mae yna ddiffyg dogfennaeth i mi allu bod yn fodlon fod y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at daliadau i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dan delerau cytundeb setliad dyddiedig Rhagfyr 2022 yn cydymffurfio â chyfraith elusennau a bod y taliadau o £325,698 yn y flwyddyn, a ddatgelwyd yn yr Adroddiad ar Dâl, yn cydymffurfio â fframwaith yr awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

[1] O 17 Tachwedd 2022 ymlaen, cytunodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru y byddai'n rhoi'r gorau i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cyfarwyddwr Cyffredinol, ond roedd wedi cytuno i chwe ymrwymiad cynharach. Roedd yr olaf o'r ymrwymiadau hyn ar 8 Rhagfyr 2022, tri diwrnod ar ôl i'r cytundeb setliad gael ei lofnodi. Nid oedd angen felly i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gyflawni unrhyw swyddogaeth ar ran Amgueddfa Genedlaethol Cymru o 9 Rhagfyr 2022 i 31 Mawrth 2023.

[2] Teithio a chynhaliaeth, a threuliau gweinyddol eraill (yn amodol ar ddarpariaeth anfonebau priodol)

15 Mae cyfraith elusennau yn rhoi cyfrifoldebau sylweddol ar ymddiriedolwyr corff elusennol gan gynnwys gofyniad i weithredu er lles yr elusen (sy'n berthnasol wrth weithredu pob pŵer, gan gynnwys penderfynu ymrwymo i drefniadau setliad); gweithredu yn ofalus ac yn fedrus yn rhesymol; ac, i warchod asedau ac enw da'r elusen. Wrth wneud hynny, rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau cytbwys, yn ystyried pob ffactor perthnasol ac yn anwybyddu unrhyw ffactorau amherthnasol.

16 Mae felly yn hanfodol fod penderfyniadau'r ymddiriedolwyr, a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, gyda thystiolaeth a dogfennaeth ddigonol ynghlwm i ddangos fod yr ymddiriedolwr wneud gwneud penderfyniadau er lles yr elusen. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r materion yn sensitif iawn, fel gyda chytundeb setliad.

17 Rhwng Medi 2021 a Mawrth 2022, cynhaliwyd holl fusnes Bwrdd Amgueddfa Genedlaethol Cymru dros e-bost, nid oedd unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Roedd unrhyw gwestiynau ar bapurau'r Bwrdd oedd wedi cael eu e-bostio at y rhai a fynychodd yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Bwrdd a'u hateb gan yr adran berthnasol cyn cael eu hanfon yn ôl i'r symbylydd. O ganlyniad, mae gen i bryderon mawr ynghylch ymagwedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru tuag at wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn a'r diffyg dogfennaeth i gefnogi penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â'r Cytundeb Setliad.

18 Yn benodol, rydw i'n pryderu nad oedd cofnodion yn cael eu paratoi o'r un cyfnod ar gyfer penderfyniad i symud ymlaen at gyfryngu a dirprwyo cyfrifoldeb dros y broses hon i ddau Ymddiriedolwr. Nid oes tystiolaeth i gadarnhau fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cael cyngor ar debygolrwydd llwyddiant hawliad yn y tribiwnlys cyflogaeth, y risgiau a gwerth tebygol yr hawliad. Yn ogystal, nid oes tystiolaeth fod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi gosod unrhyw baramedrau neu gyfyngiadau ar y setliad y gellid eu cyrraedd o dan y ddirprwyaeth, neu eu bod wedi cytuno'r mecanwaith ar gyfer cadw'r Bwrdd llawn yn hysbys o'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

19 Mae absenoldeb tystiolaeth o'r fath yn golygu na allaf fod yn fodlon fod ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi'u hysbysu neu eu cynghori'n ddigonol wrth ystyried canlyniadau'r hawliad cyflogaeth. Nid wyf wedi gallu dod i gasgliad o ran p'un a wnaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'i hymddiriedolwyr gydymffurfio'n llawn â gofynion cyfraith elusennau pan ymrwymodd i Gytundeb Setliad gyda'i chyn Gyfarwyddwr Cyffredinol ar 5 Rhagfyr 2022.

20 Rydw i'n cydnabod fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi ceisio cyngor gan ei chynghorwyr cyfreithiol allanol drwy gydol yr anghydfod cyflogaeth.

## Mater arall: Datganiad Llywodraethu – gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu

21 Rydw i wedi cynnwys datganiad Mater Arall yn fy nhystysgrif archwilio yn tynnu sylw at y datgeliadau a wnaed gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ei Datganiad Llywodraethu ynglŷn â gwendidau yn y trefniadau llywodraethu oedd ar waith yn ystod 2021/22.

22 Rydw i'n fodlon fod adran 5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 43 datganiadau ariannol 2021/22 yn gyson â'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth

a gafwyd yn ystod fy archwiliad ynglŷn ag effaith yr anghydfod parhaus ar drefniadau llywodraethu sydd ar waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

23 Yn fy nhystysgrif archwilio ar gyfer datganiadau ariannol 2020/21 Amgueddfa Genedlaethol Cymru, nodais fod pryderon wedi'u lleisio gan uwch weithredwyr yn ail hanner 2020 am eglurder rolau a chyfrifoldebau priodol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Gyfarwyddiaeth; yr effaith oedd hyn yn ei gael ar drefn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor; ac, ar gyfathrebu rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Gyfarwyddiaeth. Nodais fy mod yn ystyried hyn yn risg barhaus i drefniadau llywodraethu effeithiol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac y byddwn yn cynnal briff gwylio o'r sefyllfa.

24 Mae gen i bryderon fod yr anghydfod hwn wedi'i ymestyn heb fod angen gan ddiffygion yn y mecanweithiau sydd mewn defnydd ar gyfer delio â materion o'r natur hon, a allai fod wedi arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r gronfa gyhoeddus o ganlyniad i ffioedd cyfreithiol a'r oriau sylweddol o amser a dreuliwyd gan uwch weithredwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch hyn.

25 Rydw i'n ystyried cyflwyno adroddiad ar wahân yn amlinellu fy mhryderon am y ffordd yr aethpwyd i'r afael â hyn, a'r costau cysylltiedig, mewn mwy o fanylder.

**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**28 Medi 2023**

## DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

| | Nodiadau | Cronfeydd cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Anghyfyngedig £'000 | 2021/22 Cyfanswm £'000 | 2020/21 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | | | |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 6,697 | 26,583 | 0 | 0 | 33,280 | 31,420 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 4 | 131 | 0 | 501 | 710 | 1,342 | 1,334 |
| | | 6,828 | 26,583 | 501 | 710 | 34,622 | 32,754 |
| **Gweithgareddau Masnachu Eraill** | 5 | 0 | 1,907 | 0 | 0 | 1,907 | 422 |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | 0 | 0 | 52 | 34 | 86 | 84 |
| **Incwm Arall** | 6 | 7 | 1,678 | 0 | 0 | 1,685 | 1,104 |
| **CYFANSWM INCWM A GWADDOLION** | | 6,835 | 30,168 | 553 | 744 | 38,300 | 34,364 |
| **GWARIANT AR:** | 7&8 | | | | | | |
| **Codi Arian:** | | | | | | | |
| Gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion | | 0 | 1,036 | 5 | 3 | 1,044 | 848 |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | 5 | 0 | 1,991 | 0 | 0 | 1,991 | 1,355 |
| | | 0 | 3,027 | 5 | 3 | 3,035 | 2,203 |
| **Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | | | |
| Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | | 453 | 4,767 | 188 | 0 | 5,408 | 4,538 |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 2,172 | 8,012 | 153 | 1 | 10,338 | 10,511 |
| Profiad Ymwelwyr | | 2,244 | 15,917 | 24 | 4 | 18,189 | 17,874 |
| Llywodraethu | | 0 | 1,150 | 0 | 0 | 1,150 | 853 |
| | | 4,869 | 29,846 | 365 | 5 | 35,085 | 33,776 |
| **Arall:** | | | | | | | |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 18e | 0 | 710 | 0 | 0 | 710 | 1,210 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | 4,869 | 33,583 | 370 | 8 | 38,830 | 37,189 |
| **Cyfran o'r Fenter ar y cyd** | 9 | (171) | 0 | 0 | 0 | (171) | 0 |
| **Enillion Net ar Fuddsoddiadau** | 12 | 0 | 0 | 113 | 73 | 186 | 580 |
| **(GWARIANT)/INCWM NET** | | 1,795 | (3,415) | 296 | 809 | (515) | (2,245) |
| **Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd** | 19 | 0 | 0 | (1,565) | 1,565 | 0 | 0 |
| **ENILLION/(COLLEDION) ERAILL A GYDNABYDDIR:** | | | | | | | |
| Enillion/(Colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog | 10 | 2,953 | 18 | 32 | 10 | 3,013 | (11,752) |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 18d | 0 | 3,965 | 0 | 0 | 3,965 | 12,399 |
| **SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD** | | 4,748 | 568 | (1,237) | 2,384 | 6,463 | (1,598) |
| **CYSONI CRONFEYDD:** | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | 19 | 122,797 | (48,794) | 18,615 | 3,920 | 96,538 | 98,136 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | 19 | 127,545 | (48,226) | 17,378 | 6,304 | 103,001 | 96,538 |

**Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig**

**Mae'r holl weithgareddau yn parhau.**

**Y gostyngiad net anghyfunol mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol Amgueddfa Cymru yn ystod 2021/22 oedd £6,514,000 (gostyngiad net mewn cronfeydd o £1,092,000 yn 2020/21).**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 96 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

# MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2022

| | | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2022 | 2021 | 2022 | 2021 |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **Nodiadau** | | | | |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 10 | 105,561 | 100,769 | 105,612 | 100,841 |
| Asedau Treftadaeth | 11 | 30,640 | 30,400 | 30,640 | 30,400 |
| Cyfran o'r Fenter ar y Cyd: | 9 | | | | |
| Cyfran o'r asedau gros | | 8,954 | 9,127 | 8,954 | 9,127 |
| Cyfran o'r rhwymedigaethau gros | | (1) | (3) | (1) | (3) |
| | | 8,953 | 9,124 | 8,953 | 9,124 |
| Buddsoddiadau | 12 | 3,464 | 3,205 | 3,464 | 3,205 |
| | | 148,618 | 143,498 | 148,669 | 143,570 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 13 | 6 | 16 | 201 | 287 |
| Dyledwyr sy'n daladwy o fewn un flwyddyn | 14 | 4,512 | 5,777 | 3,503 | 4,630 |
| Buddsoddiadau | 21 | 801 | 800 | 801 | 800 |
| Arian yn y banc ac arian parod | 21 | 10,083 | 9,305 | 10,514 | 9,783 |
| | | 15,402 | 15,898 | 15,019 | 15,501 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | |
| Credydwyr sy'n daladwy o fewn un flwyddyn | 15 | (2,343) | (2,621) | (2,455) | (2,689) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 13,059 | 13,277 | 12,564 | 12,812 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU LLAI'R RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 161,677 | 156,775 | 161,233 | 156,382 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | 16 | (729) | (959) | (729) | (959) |
| Darpariaethau | 17 | (188) | 0 | (188) | 0 |
| **ASEDAU NET HEB GYNNWYS RHWYMEDIGAETH Y CYNLLUN PENSIWN** | | 160,760 | 155,816 | 160,316 | 155,423 |
| Diffyg yn y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 18a | (57,315) | (58,885) | (57,315) | (58,885) |
| **ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETH Y CYNLLUN PENSIWN** | | 103,445 | 96,931 | 103,001 | 96,538 |
| **CRONFEYDD** | 19 | | | | |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig - Incwm | | 113,437 | 111,642 | 113,437 | 111,642 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig - Ailbrisio | | 14,108 | 11,155 | 14,108 | 11,155 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig** | | 127,545 | 122,797 | 127,545 | 122,797 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig - Incwm | | 9,515 | 10,484 | 9,071 | 10,091 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig - Ailbrisio | | 18 | 0 | 18 | 0 |
| Cronfa bensiwn | | (57,315) | (58,885) | (57,315) | (58,885) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig** | | (47,782) | (48,401) | (48,226) | (48,794) |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig - Incwm | | 17,231 | 18,500 | 17,231 | 18,500 |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig - Ailbrisio | | 147 | 115 | 147 | 115 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Preifat Cyfyngedig** | | 17,378 | 18,615 | 17,378 | 18,615 |
| Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig - Incwm | | 6,259 | 3,885 | 6,259 | 3,885 |
| Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig - Ailbrisio | | 45 | 35 | 45 | 35 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig** | | 6,304 | 3,920 | 6,304 | 3,920 |
| | | 103,445 | 96,931 | 103,001 | 96,538 |

**Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan**



***Jane Richardson***
**Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**



***Hywel John***
**Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 21 Medi 2023**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 96 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

## DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

| | | Datganiad Llif Arian Cyfunol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | 2021/22 | 2020/21 |
| | | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Mewnlif/(All-lif) Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredu** | 20 | 4,903 | (532) | 178 | 739 | 5,288 | 5,470 |
| **Llifoedd Arian o Weithgareddau Buddsoddi:** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (3,584) | (424) | 0 | 0 | (4,008) | (3,477) |
| Prynu asedau treftadaeth | | (225) | 0 | 0 | 0 | (225) | (385) |
| Gwaredu asedau sefydlog diriaethol | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 64 |
| Gwaredu asedau treftadaeth | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 |
| Gwerthiant net buddsoddiadau | | 0 | 0 | (44) | (29) | (73) | 8 |
| **Arian Net (a ddefnyddiwyd yn)/a ddarparwyd gan y Gweithgareddau Buddsoddi** | | (3,809) | (424) | (44) | (29) | (4,306) | (3,782) |
| **Llifoedd Arian o'r Gweithgareddau Ariannu:** | | | | | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | (157) | (93) | 0 | 0 | (250) | (249) |
| **Arian Net (a ddefnyddiwyd yn)/a ddarparwyd gan y Gweithgareddau Ariannu** | | (157) | (93) | 0 | 0 | (250) | (249) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian** | | 937 | (1,049) | 134 | 710 | 732 | 1,439 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | (1,861) | 5,523 | 3,819 | 3,102 | 10,583 | 9,144 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 21 | (924) | 4,474 | 3,953 | 3,812 | 11,315 | 10,583 |

| | | Datganiad Llif Arian Amgueddfa Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | 2021/22 | 2020/21 |
| | | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Mewnlif/(All-lif) Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredu** | 20 | 4,903 | (485) | 178 | 739 | 5,335 | 5,860 |
| **Llifoedd Arian o Weithgareddau Buddsoddi:** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (3,584) | (424) | 0 | 0 | (4,008) | (3,469) |
| Prynu asedau treftadaeth | | (225) | 0 | 0 | 0 | (225) | (385) |
| Gwaredu asedau sefydlog diriaethol | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 61 |
| Gwaredu asedau treftadaeth | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 |
| Gwerthiant net buddsoddiadau | | 0 | 0 | (44) | (29) | (73) | 8 |
| **Arian Net (a ddefnyddiwyd yn)/a ddarparwyd gan y Gweithgareddau Buddsoddi** | | (3,809) | (424) | (44) | (29) | (4,306) | (3,777) |
| **Llifoedd Arian o'r Gweithgareddau Ariannu:** | | | | | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | (157) | (93) | 0 | 0 | (250) | (249) |
| **Arian Net (a ddefnyddiwyd yn)/a ddarparwyd gan y Gweithgareddau Ariannu** | | (157) | (93) | 0 | 0 | (250) | (249) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian** | | 937 | (1,002) | 134 | 710 | 779 | 1,834 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | (1,861) | 5,045 | 3,819 | 3,102 | 10,105 | 8,271 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 21 | (924) | 4,043 | 3,953 | 3,812 | 10,884 | 10,105 |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 96 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2022

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Y Sail Cyfrifyddu

**Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbrisiad o rai asedau sefydlog diriaethol ar sail eu gwerth i Amgueddfa Cymru. Fe'u paratowyd ar y sail croniadau yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102), a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae Trysorlys Ei Fawrhydi wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102) fod yn berthnasol o ran yr angen i ddatgelu cost hanesyddol asedau sefydlog diriaethol.**

### 1.2 Ymgymeriadau'r Fenter ar y Cyd

**Mae Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe yn ddau aelod cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf (AGGA Cyf), cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfalaf cyfrannau. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti o gyfrifyddu. Cymeradwywyd cyfrifon AGGA Cyf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a chafwyd barn archwilio ddiamod. Mae copi o'r Cyfrifon ar gael o'n pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.**

### 1.3 Ymgymeriadau'r Is-gwmni

**Rydym yn gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni o'r enw Mentrau AOCC Cyf, rhif cwmni 02449244, sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Mae cyfrifon Mentrau AOCC Cyf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 wedi'u cymeradwyo a derbyniwyd barn archwilio ddiamod. Mae copi ar gael o'n pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.**

### 1.4 Incwm ac Adnoddau

**Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu ar sail eu derbyn, gan ohirio unrhyw incwm sydd heb ei wario nad yw'n Gymorth Grant tan y flwyddyn ganlynol. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os tybir eu bod yn debygol o fod wedi'u derbyn, fel y diffinnir yn FRS102.**

**1.5 Gwariant**

**Caiff gwariant ei ddosrannu ar draws penawdau gwariant ar sail dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol yn achos costau cymorth fel y bo'n briodol. Mae gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â chodi arian. Mae Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â'r is-gwmni masnachu. Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig ag Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus; Casgliadau ac Ymchwil; Profiad Ymwelwyr; a Llywodraethu. Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chynllunio corfforaethol a strategol, gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau, cyswllt â Llywodraeth Cymru, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg ac adroddiadau statudol, a gwaith cyfrifon.**

**Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cymorth fel a ganlyn: dyrennir Marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg yn ôl amser canrannol; dyrennir Cyllid fesul cyfanswm incwm a chyfanswm gwariant; dyrennir TGCh yn ôl nifer y defnyddwyr cyfrifiaduron; a dyrennir Adnoddau Dynol yn ôl nifer y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn.**

**1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol**

**Mae'r holl eitemau cyfalaf sy'n costio mwy na £10,000 wedi'u cyfalafu. Nid yw eitemau cyfalaf sy'n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu, a chânt eu dileu yn ystod y flwyddyn. Cyn 1 Ebrill 2014, roedd eitemau cyfalaf a oedd yn costio mwy na £5,000 yn cael eu cyfalafu.**

**Mae asedau tir ac adeiladau yn cael eu prisio'n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail eu gwerth cyfredol o ran y defnydd presennol ohonynt, gan dybio y byddai eiddo'n parhau i ddarparu gwasanaeth ac yn cael ei ailbrisio trwy ddefnyddio mynegai yn y cyfamser. Caiff enillion adbrisio eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol o dan Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog, ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwyso unrhyw wariant a ddilëwyd yn flaenorol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Os felly, caiff yr enillion eu dirymu o dan bennawd y gwariant perthnasol. Caiff colledion ailbrisio eu cydnabod fel traul o dan y pennawd gwariant perthnasol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwyso unrhyw enillion ailbrisio blaenorol. Os felly, dangosir y golled o dan Enillion/(colledion) ar yr ailbrisiad o asedau sefydlog. Caiff gwaith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddiddymu yn ystod y flwyddyn y cyflawnir y gwaith.**

**Mae asedau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo (h.y. offer a cherbydau, a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar) yn cael eu cadw ar sail cost hanesyddol (neu'r gost ailbrisio cyn 1 Ebrill 2010), ac nid ydynt yn cael eu mynegeio gan mai bywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) sydd gan yr asedau hyn.**

**Cynhelir adolygiad amhariad blynyddol gan y rheolwyr.**

**1.7 Asedau Treftadaeth**

**Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion hyrwyddo amcanion cadw, cadwraeth ac addysgiadol elusennau, ac sy'n cyfrannu trwy fynediad cyhoeddus at ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ein hamcanion ac maent yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosiadau ac arteffactau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd gennym neu a gyflwynwyd i ni sydd â gwerth unigol o £5,000 neu fwy, neu £10,000 neu fwy o 1 Ebrill 2014 ymlaen, wedi'u cyfalafu ar sail cost/prisiad hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi'u cyfalafu ac, ym marn yr Ymddiriedolwyr, ni ellir cyfiawnhau cost sylweddol prisio'r casgliad anferth hwn o asedau treftadaeth (tua 5.3 miliwn o eitemau) ar sail cost/budd. Mae asedau a gyfrannwyd neu a ran-gyfrannwyd yn cael eu prisio gan gyfeirio at anfonebau neu ddogfennau eraill os ydynt ar gael, ac fel arall gan staff curadurol.**

**1.8 Dibrisiant**

**Caiff dibrisiant ei godi ar asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:**

- **Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol ac eiddo ar brydlesi hir eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol, sef rhwng 50 a 125 mlynedd.**
- **Fel y caniateir gan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102), nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddilliol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant o bwys.**
- **Bydd peiriannau, cyfarpar, ffitiadau a gosodiadau'n dibrisio dros gyfnod o rhwng pump a deng mlynedd. Yn achos eitemau penodol sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o dair blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.**
- **Codir tâl am asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.**

**1.9 Cronfeydd**

**Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo ein hamcanion cyffredinol.**

**Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau a geir gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill y llywodraeth.**

**Cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr yw'r Cronfeydd Preifat Cyfyngedig a rhaid eu defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau a gafwyd wrth eu sefydlu.**

**Mae cronfeydd ailbrisio yn cynrychioli enillion/colledion cronnus ar ailbrisio asedau sefydlog sy'n codi o 1 Ebrill 2011 ymlaen.**

**Gellir trosglwyddo arian rhwng cronfeydd ar yr amod mai at ddibenion a bennwyd gan y rhoddwr neu'r corff dyrannu grant yn unig y defnyddir cronfeydd cyfyngedig.**

**1.10 Stoc**

**Rydym yn cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ein siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar yr un isaf o blith cost a gwerth gwireddadwy net.**

**1.11 Buddsoddiadau**

**Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Ein polisi yw cadw cofnodion prisio yn gyfredol, felly pan fo buddsoddiadau'n cael eu gwerthu, nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau sy'n parhau am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth y portffolio buddsoddiad trwy gydol y flwyddyn.**

**1.12 Croniadau Gwyliau Staff**

**Rydym yn cydnabod croniadau o hawliau gwyliau staff nas cymerwyd hyd yma ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.**

**1.13 Ymchwilio a Datblygu**

**Caiff gwariant ar ymchwilio a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.**

**1.14 Trethiant**

**Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi rhoi statws elusen i ni, ond codir treth gorfforaeth ar Mentrau AOCC Cyf.**

**1.15 Pensiynau**

**Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Mae'r tâl a godir ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn seiliedig ar gost y gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifwyd gan actiwari'r cynllun.**

**1.16 Asedau a Rhwymedigaethau Amodol**

**Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol wedi'u cronni yn y datganiadau cyfrifyddu. Caiff rhwymedigaethau amodol o ran unrhyw hawliau cyfreithiol lle nad oes yswiriant eu cydnabod mewn nodyn i'r cyfrifon, yn yr un modd ag unrhyw asedau a rhwymedigaethau amodol eraill o bwys.**

**1.17 Costau Taliadau Diswyddo**

**Caiff taliadau diswyddo a delir yn rhan o'r Cytundeb Dileu Swyddi a Diswyddiadau Cynnar a'r Cynllun Ymddiswyddo â Sicrwydd Cydfuddiannol eu cydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu y cafodd y tâl diswyddo ei gymeradwyo'n ffurfiol ynddo a'i gytuno gyda'r gweithiwr cyflogedig.**

**1.18 Offerynnau Ariannol**
**Nid yw dyledion masnach yn cynnwys unrhyw log ac maent wedi'u nodi ar eu gwerth enwol a'u gostwng yn ôl lwfansau priodol ar gyfer symiau amcangyfrifedig na ellir eu hadennill.**

**Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian mewn banc dros gyfnod byr ar delerau dim rhybudd. Caiff arian a gedwir am gyfnod byr nad yw ar delerau dim rhybudd ei gynnwys yn y buddsoddiadau asedau cyfredol.**

**Nid yw'r llog wedi'i osod ar gredydau masnach, a chânt eu nodi ar eu gwerth enwol. Cydnabyddir rhwymedigaethau unwaith y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i wneud taliad i drydydd parti. Yn ôl pob tebyg, bydd angen setliad a gellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.**

**1.19 Darpariaethau**
**Pan fydd naill ai amseru neu swm y gwariant sydd ei angen yn y dyfodol i setlo'r rhwymedigaeth yn ansicr, caiff ei gydnabod fel darpariaeth yn hytrach na chredydwr. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo neu i'w drosglwyddo i drydydd parti ar y dyddiad adrodd. Nodir darpariaethau ar eu gwerth enwol.**

## 2. Datganiad o Weithgareddau Ariannol Cymharol

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | | | | | |
| **Grantiau** | 3,858 | 27,562 | 0 | 0 | 31,420 |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | 118 | 0 | 538 | 678 | 1,334 |
| | 3,976 | 27,562 | 538 | 678 | 32,754 |
| **Gweithgareddau Masnachu Eraill** | 0 | 422 | 0 | 0 | 422 |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | 0 | 0 | 57 | 27 | 84 |
| **Incwm Arall** | 0 | 1,097 | 5 | 2 | 1,104 |
| **CYFANSWM INCWM A GWADDOLION** | 3,976 | 29,081 | 600 | 707 | 34,364 |
| **GWARIANT AR:** | | | | | |
| **Codi Arian:** | | | | | |
| Gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion | 0 | 840 | 4 | 4 | 848 |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | 0 | 1,355 | 0 | 0 | 1,355 |
| | 0 | 2,195 | 4 | 4 | 2,203 |
| **Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | 693 | 3,841 | 4 | 0 | 4,538 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 3,301 | 7,201 | 8 | 1 | 10,511 |
| Profiad Ymwelwyr | 3,435 | 14,428 | 9 | 2 | 17,874 |
| Llywodraethu | 0 | 853 | 0 | 0 | 853 |
| | 7,429 | 26,323 | 21 | 3 | 33,776 |
| **Arall:** | | | | | |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 0 | 1,210 | 0 | 0 | 1,210 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 7,429 | 29,728 | 25 | 7 | 37,189 |
| **Cyfran o'r Fenter ar y cyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Enillion/(Colledion) Net ar Fuddsoddiadau** | 0 | 0 | 388 | 192 | 580 |
| **(GWARIANT)/INCWM NET** | (3,453) | (647) | 963 | 892 | (2,245) |
| **ENILLION/(COLLEDION) ERAILL A GYDNABYDDIR:** | | | | | |
| (Colledion)/Enillion ar ailbrisio asedau sefydlog | (11,406) | (88) | (201) | (57) | (11,752) |
| Enillion/(Colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 0 | 12,399 | 0 | 0 | 12,399 |
| **SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD** | (14,859) | 11,664 | 762 | 835 | (1,598) |
| **CYSONI CRONFEYDD:** | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | 137,656 | (60,458) | 17,853 | 3,085 | 98,136 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | 122,797 | (48,794) | 18,615 | 3,920 | 96,538 |

## 3. Grantiau Derbyniadwy

| | Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grant Refeniw | 0 | 24,802 | 24,802 | 23,632 |
| Cymorth Grant Prynu Sbesimenau | 269 | 0 | 269 | 269 |
| Cymorth Grant Cyfalaf | 6,428 | 0 | 6,428 | 3,998 |
| Grantiau eraill gan y llywodraeth | 0 | 1,781 | 1,781 | 3,521 |
| | 6,697 | 26,583 | 33,280 | 31,420 |

**Cawsom gyfanswm o £31,499,000 (£27,899,000 yn 2020/21) mewn Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Cymorth Grant Refeniw, Prynu Sbesimenau a Chyfalaf.**

**Roedd grantiau eraill y llywodraeth yn cynnwys grantiau gan Lywodraeth Cymru o £1,180,000 (£606,000 yn 2020/21), grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol o £230,000 (£210,000 yn 2020/21), grant gan Gyngor Caerdydd o £12,000 (£3,000 yn 2020/21), grant gan Gyngor Dinas Casnewydd o £3,000 (£dim yn 2020/21), grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru o £dim (£110,000 yn 2020/21), a £356,000 a gafwyd o dan gynllun Llywodraeth y DU, Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (£3,173,000 yn 2020/21).**

## 4. Rhoddion a Chymynroddion

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
| Asedau a gyfrannwyd | 0 | 0 | 15 | 0 | 15 | 50 |
| Cymynroddion | 0 | 0 | 14 | 50 | 64 | 100 |
| Rhoddion eraill | 131 | 0 | 472 | 660 | 1,263 | 1,184 |
| | 131 | 0 | 501 | 710 | 1,342 | 1,334 |

**Mae'r asedau a gyfrannwyd yn cynnwys asedau treftadaeth gwerth £15,000 (£50,000 yn 2020/21) (gweler nodyn 11 i gael rhagor o fanylion). Cafodd pob prisiad o asedau a gyfrannwyd (neu a ran-gyfrannwyd) yn ystod y flwyddyn a'r flwyddyn flaenorol ei gynnal gan staff curadurol neu staff cymwys eraill, neu drwy gyfeirio at anfonebau neu ohebiaeth derbyn 'in lieu'.**

**Mae Rhoddion eraill yn cynnwys rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau a dderbyniwyd fel cyfraniadau tuag at ein gwaith, projectau penodol a phrynu sbesimenau. Roedd y rhain yn cynnwys £500,000 gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl (£350,000 yn 2020/21) a £317,000 gan Sefydliad Paul Hamlyn (£300,000 yn 2020/21). Cafwyd rhodd o £100,000 gan Sefydliad Garfield Weston hefyd yn 2020/21**

## 5. Is-gwmni Masnachu

Mae gennym un is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif weithgareddau Mentrau AOCC Cyf yw gwerthu nwyddau yn ein holl siopau, arlwyo, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, gosod eiddo, archebion trwy'r post, derbyniadau o werthu arddangosfeydd neu eu rhoi ar fenthyg, a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf yn dychwelyd ei elw i ni ar ffurf cymorth rhodd. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r cwmni isod.

| | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| | £ '000 | £ '000 |
| Trosiant | 1,843 | 421 |
| Cost gwerthiannau | (1,690) | (814) |
| Elw/(Colled) Gros | 153 | (393) |
| Treuliau gweinyddol | (262) | (105) |
| Incwm gweithredu arall | 64 | 0 |
| Elw/(Colled) ar weithgareddau arferol cyn llog | (45) | (498) |
| Llog derbyniadwy | 0 | 0 |
| Llog taladwy | (6) | (6) |
| Elw/(Colled) ar weithgareddau arferol cyn treth | (51) | (504) |
